

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Y Cynllun Datblygu Lleol – Cynllun Newydd (2015-2031)

Cytundeb Cyflawni

Cymeradwywyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol Mehefin 2016

Cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru [25 Gorffennaf 2016](#)

PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO

Tudalen Gynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	3
1. Cyflwyniad	5
2. Yr Amserlen.....	12
3. Y Cynllun Cynnwys Cymunedau	19
4. Monitro ac Adolygu.....	27
5. Beth fydd yn digwydd nesaf i'r ddogfen hon?	28
6. Manylion cyswllt defnyddiol.....	28
Atodiad 1 'Profion Cadernid'.....	29
Atodiad 2 'Proffil o'r Boblogaeth'	30
Atodiad 3 Risgiau i'r amserlen	33
Atodiad 4 Grwpiau Ymgynghori	35
Atodiad 5 'Rhestr Termau'.....	41

Crynodeb Gweithredol

1. Yn ôl Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae'n ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol gynnal adolygiadau rheolaidd o'r Cynllun Datblygu Lleol fesul cyfnodau heb fod yn hwy na 4 blynedd o'r adeg y cafodd ei fabwysiadu. Y nod yn hyn o beth yw sicrhau bod asesiad rheolaidd a chynhwysfawr yn mynd rhagddo i ganfod a yw'r cynllun yn parhau'n gyfoes neu a oes angen ei newid. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ym mis Medi 2010. Mae adran monitro ac adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnig y dylid cynnal adolygiad llawn o'r Cynllun ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2014-2015. Bu'r Awdurdod yn aros i ganllawiau rheoliadau gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r broses adolygu a diwygio gael eu cyhoeddi.
2. Mae'r Cytundeb Cyflawni hwn yn cynnwys amserlen o gyfnodau allweddol yn y broses o baratoi'r Cynllun (Pennod 2) a'r dulliau o ymgysylltu â'r gymuned (Pennod 3). Mae'r Cytundeb Cyflawni hwn hefyd yn nodi sut a phryd y bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cynnal yr Arfarniadau o Gynaliadwyedd ar gyfer y Cynlluniau, a'r dull gweithredu y byddwn yn ei fabwysiadu yng nghyswllt Canllawiau Cynllunio Atodol.
3. Gellir cael adroddiad ar ymgynghoriadau ynglŷn â pharatoi'r Cynllun Cyflenwi ar wefan yr Awdurdod.¹
4. Cymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni hwn gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 15 Mehefin 2016. Cytunodd Llywodraeth Cymru ar 25 Gorffennaf 2016.
5. Mae amserlen y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys cyfnodau diffiniol a chyfnodau dangosol. Y cyfnodau dangosol yw'r rhai a restrir isod sy'n dilyn y Cyfnod Adneuo. Bydd y rhain yn cael eu trosi'n ddyddiadau pendant cyn cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol.
6. Dyma'r cyfnodau allweddol:

Cyfnod	Y Cynllun Newydd wedi'i Gwblhau erbyn (llawer llai na phedair blynedd)
Adroddiad yr Adolygiad	Mehefin/Gorffennaf 2016
Cytundeb Cyflawni	Mehefin/Gorffennaf 2016
Cyfranogi Cyn Adneuo	Mehefin/Gorffennaf 2016 – Chwefror 2017
Ymgynghori Cyn Adneuo	Ebrill/Mai 2017
Adneuo	Mawrth 2018
Cyflwyno i Lywodraeth Cymru	Rhagfyr 2018
Archwilio	Gwanwyn 2019
Mabwysiadu	Diwedd 2019

7. Mae'r Awdurdod wedi dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru drwy amcangyfrif amserlen sydd llawer yn llai na phedair blynedd ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.
8. Nod y broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth baratoi'r Cynllun Newydd yw cael consensws ynghylch y ffordd orau o fwrw ymlaen ar gyfer dyfodol y Parc Cenedlaethol.
9. Bydd unrhyw newid arfaethedig i bolisiau yn destun ymgynghoriad â'r cyhoedd gan gydymffurfio â pholisiau, canllawiau a rheoliadau cenedlaethol. Yn y diwedd bydd yr Arolygydd penodedig yn gallu ychwanegu polisiau at y cynllun, eu newid, neu eu dileu o'r cynllun. Bydd yr Awdurdod yn dilyn y cyngor a roddir yn adran 2.8 o Bolisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 8, Ionawr 2016, wrth ystyried statws y Cynllun newydd sy'n datblygu.

¹ <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=768&LangID=2>

10. Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn nodi'r egwyddorion, y dulliau ymgysylltu, a'r cynigion o ran cael adborth.
11. Mae'r cynigion ar gyfer monitro cynnydd y Cynllun Newydd a'r Cytundeb Cyflawni hefyd wedi'u nodi.

1. Cyflwyniad

Beth yw diben Cytundeb Cyflawni?

12. Mae'r ddogfen hon, sef y Cytundeb Cyflawni, yn cyflwyno ein cynnig o ran y ffordd y byddwn yn cynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'n cymryd lle'r Cytundeb Cyflawni gwreiddiol a luniwyd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol cyntaf a Chynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Nid yw'r Cynllun Rheoli wedi'i gynnwys yn y broses adolygu hon.
13. Mae'n darparu manylion am y cyfnodau amrywiol sy'n rhan o'r broses, yr amser y mae pob rhan o'r broses yn debygol o'i gymryd a sut a phryd y bydd grwpiau, sefydliadau ac unigolion gwahanol yn gallu cymryd rhan.
14. Mae Adroddiad yr Adolygiad² ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi'r meysydd sy'n sylfaenol i'r strategaeth gyffredinol lle nad yw'r Cynllun yn cyflawni i raddau mor foddhaol ag y rhagwelodd yr Awdurdod. O ganlyniad, ystyrir mai'r dull gweithredu mwyaf priodol yw dilyn y weithdrefn adolygu sydd wedi'i phennu ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd.
15. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd hefyd yn cael ei werthuso i ganfod pa mor gynaliadwy yw a'r modd y mae'n debygol o effeithio ar yr amgylchedd. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd hefyd yn cyflawni'r gofynion ynghylch cynnal Aseiad Amgylcheddol Strategol. Bydd cyfleoedd ar gael i gyflwyno sylwadau am y prosesau a'r dogfennau hyn.
16. Mae'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig hwn yn cynnwys dwy ran:
 - Yr **Amserlen** ar gyfer llunio'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd cysylltiedig. Darperir dyddiadau diffiniol hyd at y cyfnod adneuo a darperir dyddiadau dangosol yng nghyswllt cyfnodau diweddarach (Pennod 2).
 - **Y Cynllun Cynnwys Cymunedau**, sy'n amlinellu egwyddorion yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ynghylch ymgysylltu â'r gymuned; ei ddull gweithredu mewn cysylltiad â phwy y mae'n bwriadu ymgysylltu â hwy yn y gymuned ac ymysg rhanddeiliaid, sut y bydd yn gwneud hynny, a phryd, a'i ddull o ymateb i sylwadau (Pennod 3).

Beth yw diben y Cynllun Datblygu Lleol, ei Ganllawiau a'r Arfarniad?

Y Cynllun Datblygu Lleol

17. Dyma sut y byddwn yn cynllunio ar gyfer dyfodol ein trefi, ein pentrefi, ein harfordir, a chefn gwlad, ac yn gwneud penderfyniadau am ddefnyddio tir mewn cysylltiad â hwy.
18. Bydd penderfyniadau cynllunio yn cael eu gwneud yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol oni bai bod ystyriaethau o sylwedd yn dangos fel arall.³ O ganlyniad, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn darparu'r fframwaith hanfodol ar gyfer proses resymegol a chyson o wneud penderfyniadau.

² <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=765&LangID=2>

³ Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig (Medi 2010) yn cynnwys polisiau cynllunio i:

- amddiffyn ein harfordir a chefn gwlad;
- tywys datblygiadau i leoliadau penodol; a
- rhoi arweiniad ar gyfer penderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio neu ei wrthod.

19. Mae'r Cynllun yn cynnwys llai o fanylion na Chynlluniau blaenorol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gynlluniau Datblygu Lleol gynnwys nifer gyfyngedig o bolisiau cryno ynghylch ardaloedd cyfan, sy'n canolbwyntio ar brif anghenion a chyfleoedd ardal. Rhaid osgoi ailadrodd polisiau cynllunio cenedlaethol.

20. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol bob pedair blynedd. Ar sail cyngor swyddogion Llywodraeth Cymru, cytunwyd y dylid aros am i'r Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol diwygiedig a'r polisi a chanllawiau ategol gael eu rhyddhau cyn dechrau'r Adolygiad hwn yn ffurfiol.

21. O ran statws Cynllun Newydd, bydd unrhyw newid arfaethedig i bolisiau yn destun ymgynghoriad â'r cyhoedd gan gydymffurfio â pholisiau, canllawiau a rheoliadau cenedlaethol. Yn y diwedd bydd yr Arolygydd penodedig yn gallu ychwanegu polisiau at y Cynllun, eu newid, neu eu dileu o'r cynllun. Bydd yr Awdurdod yn dilyn y cyngor a roddir yn adran 2.8 o Bolisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 8, Ionawr 2016, wrth ystyried statws y Cynllun newydd sy'n datblygu.

22. Mae polisiau a chanllawiau allweddol ynghylch paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a'r gofynion sy'n pennu bod rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ymgysylltu â'u cymunedau a rhanddeiliaid wedi'u cynnwys yn yr hyn a ganlyn:

- Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8) 2016
- Nodiadau Cyngor Technegol – dyddiadau amrywiol
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) Cymru 2005 – ('Rheoliadau CDLI')⁴
- Y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 2) 2015
- Archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol - Canllaw Gweithdrefnol 2015 (yr Arolygiaeth Gynllunio)
- Cynlluniau Datblygu Lleol: Paratoi ar gyfer cyflwyno - Canllaw ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol (2015), yr Arolygiaeth Gynllunio
- Cynllun Datblygu Lleol Cymru, Cynllunio'ch Cymuned: Llyfryn cyflwyno Cynlluniau Datblygu Lleol 2006
- Y gofynion statudol i gael Asesiad Amgylcheddol Strategol, Arfarniad o Gynaliadwyedd, ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Y Weithdrefn Ddiwygio a'r Profion Cadernid

⁴ Fel y'u diwygiwyd, gan gynnwys gan Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015 ('Rheoliadau Diwygio 2015')

23. Mae'r Adroddiad ar yr Adolygiad yn crynhoi'r prif feysydd pwnc nad ystyrir bod y Cynllun Datblygu Lleol presennol yn cyflawni ynddynt, lle y mae wedi dyddio oherwydd newidiadau i'r cyd-destun, a pha rannau o'r cynllun y mae angen eu hadolygu o ganlyniad. Ar sail arwyddocâd y newidiadau sy'n ofynnol, mae'r Awdurdod yn bwriadu llunio cynllun newydd.
24. Wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol neu ei adolygu, rhaid i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol sicrhau bod y Cynllun yn cael ei baratoi'n gywir a'i fod yn bodloni'r 3 prawf o gadernid a amlinellir yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Argraffiad 2 (Awst 2015):
- A yw'r Cynllun yn cydweddu? (hynny yw, a yw'n amlwg bod y Cynllun yn cyd-fynd â Chynlluniau eraill?)
 - A yw'r Cynllun yn briodol? (hynny yw, a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)
 - A fydd y Cynllun yn cyflawni? (hynny yw, a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)
- Mae rhagor o fanylion am y Profion Cadernid a'r broses o'u cymhwyso yn yr Archwiliad i'w gweld yn Atodiad 1.

Canllawiau Cynllunio Atodol

25. Mae nodiadau canllaw, papurau briffio a chanllawiau atodol eraill yn rhoi manylion ynghylch polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol ac ystyriaethau ceisiadau cynllunio. Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu nifer o ddogfennau ynghylch canllawiau cynllunio atodol ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2010. Mae'r rhain i'w gweld ar wefan yr Awdurdod.⁵
26. Ni ragwelir ar hyn o bryd y bydd unrhyw ganllawiau cynllunio atodol ychwanegol i ategu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael eu paratoi ac yn destun ymgynghoriad. Fodd bynnag, gellir trefnu i ganllawiau gael eu llunio ar ôl i'r cynllun newydd gael ei fabwysiadu yn unol â pharagraff 2.4.6 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8) 2016. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cynhyrchu Cynlluniau Lleoedd ar gyfer safleoedd penodol a neilltuyd, lle gellir defnyddio gallu rhwydweithio presennol Cymunedau Tref a Chymuned, ynghyd â'u cymunedau perthnasol, i annog ymgysylltiad cymunedol fel sail i'r broses.
27. Bydd y meysydd y mae'n debygol y bydd canllawiau'n cael eu llunio ynddynt neu lle y bydd canllawiau'n cael eu trosglwyddo o'r Cynllun Datblygu Lleol presennol yn cael eu nodi yn y cyfnod Cyn Adneuo/Adneuo.
28. Bydd y broses o ymgynghori ar ganllawiau yn cael ei chynnal gyda grwpiau targed sy'n berthnasol i'r mater sy'n cael ei ystyried, a bydd yn cynnwys cynghorau cymuned perthnasol. Mae nifer o gamau i'w cymryd yn achos canllawiau:
- Bydd datganiad i'r wasg sy'n rhoi gwybod am gyhoeddi'r canllawiau drafft yn cael ei gyflwyno yn y papur newydd lleol ac ar wefan yr Awdurdod: www.arfordirpenfro.org.uk. Bydd hwn yn rhoi gwybod pa bryd y gellir darllen y canllawiau, ac ymhle.
 - Bydd y partion hysbys â buddiannau, grwpiau a dargedir, a'r ymgynghoreion statudol priodol yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig.
 - Bydd copiâu papur o'r ddogfen ar gael i'w darllen yn Swyddfeydd yr Awdurdod yn Noc Penfro, yn ystod oriau swyddfa.
 - Bydd copiâu ar gael i'w gweld neu i'w lawrlwytho ar wefan yr Awdurdod.
 - Chwe wythnos fydd hyd yr ymgynghoriad.

⁵ www.arfordirpenfro.org.uk

- Mae'r holl sylwadau'n wybodaeth gyhoeddus.
- Bydd yr holl sylwadau sy'n dod i law yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- Ar ôl cytuno'n derfynol ar y canllawiau, bydd adroddiad ymgynghori sy'n dangos y modd y gwnaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ymdrin â'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi.
- Bydd pawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad, cynghorau cymuned perthnasol ac ymgynghoreion statudol yn cael eu hysbysu pan fydd y canllawiau mabwysiedig a'r adroddiad ymgynghori ar gael.

Asesiad Amgylcheddol Strategol, yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

29. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn destun asesiad o'i effeithiau o ran datblygiad cynaliadwy a'i effeithiau amgylcheddol:

- Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn asesu'r goblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig â strategaethau a pholisïau'r cynlluniau sy'n datblygu.⁶
- Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad trylwyr o effeithiau amgylcheddol y cynlluniau, ac, i raddau llai, eu heffeithiau cymdeithasol. Y bwriad yn hyn o beth yw sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu cynnwys wrth lunio'r cynlluniau.⁷
- Rhaid i unrhyw gynllun neu raglen sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Natura 2000 (Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)) ac nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r safle at ddibenion cadwraeth natur fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.⁸ Dylai'r asesiad hwn nodi'r effeithiau tebygol ar y safle Natura 2000, nodi a ellir cyfiawnhau'r effeithiau hyn mewn cyd-destun ehangach, a nodi unrhyw fesurau lliniaru y mae'n rhaid eu cymryd.

30. Bydd y ddau asesiad cyntaf yn cael eu cynnwys yn yr 'Arfarniad o Gynaliadwyedd'. Bydd yr Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd yn cael eu cyflwyno ar wahân. Bydd yr asesiadau hyn yn cael eu cynnal ochr yn ochr â'r broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol, a byddant yn rhan o'r broses honno. Bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'i ddogfennu mewn:

- Adroddiad Cwmpasu cychwynnol ar gyfer asesu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bydd yr adroddiad hwn yn disgrifio'r materion cynaliadwyedd presennol a chyfres gyffredin o amcanion cynaliadwyedd a fydd yn cael eu defnyddio i farnu'r cynlluniau;
- Adroddiad llawn am yr asesiad o'r Cynllun Datblygu Lleol newydd wrth iddo gael ei ddatblygu. Bydd yr adroddiad hwn yn egluro sut y mae'r dewisiadau a'r polisïau manwl a ystyrir ar gyfer y cynllun yn debygol o gyflawni o ran yr amcanion cynaliadwyedd sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad cwmpasu. Bydd yr adroddiad hwn yn egluro hefyd sut y gellir osgoi neu wrthbwysu unrhyw effeithiau niweidiol yn sgil y Cynllun Datblygu Lleol newydd, a sut y gellir uchafu'r effeithiau manteisiol;
- Datganiad sy'n egluro sut y mae ystyriaethau cynaliadwyedd a'r asesiadau wedi'u cynnwys wrth lunio'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.

⁶ Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

⁷ Fel sy'n ofynnol gan Offeryn Statudol 2004 Rhif 1656 (Cy.170), Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (<http://www.opsi.gov.uk/legislation/Cymru/wsi2004/20041656e.htm>); a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Adran 62(6) a Chyfarwyddeb Ewropeaidd EU2001/42/EC (<http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/40005-g.htm#62>)


⁸ Fel sy'n ofynnol gan Gyfarwyddeb 92/43/EC yr Undeb Ewropeaidd (y Gyfarwyddeb Gynefinoedd)

31. Bydd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cynnwys y cyfnodau a ganlyn:

- Sgrinio
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Beth yw Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro?

32. Mae'r Parc yn cynnwys y rhan fwyaf o lain arfordirol Sir Benfro a'r mwyafrif o'i hynsoedd ar y môr, rhan uchaf aber Daugleddau a Bryniau'r Preseli. Mae'r Parc yn cwmpasu ardal o 612 km sgwâr ac mae ganddo boblogaeth breswyl o tua 23,000, sy'n golygu ei fod yn un o'r Parciau Cenedlaethol dwysaf o ran poblogaeth yn y DU.
33. Mae ynysoedd arfordir gorllewinol y Parc Cenedlaethol yn gartref i boblogaethau ryngwladol bwysig o adar môr, tra bo aber Daugleddau yn bwysig i adar dŵr sy'n gaeafu ac i adar hirgoes. Adlewyrchir gwerth mawr y Parc o safbwynt bywyd gwylt gan ei ddynodiadau cadwraeth: 13 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, 5 Ardal Gwarchodaeth Arbennig, 1 parth Cadwraeth Morol, 7 Gwarchodfa Natur Genedlaethol, a 60 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) - mae tua 80% o forlin y Parc Cenedlaethol wedi'i dynodi'n SoDdGA, gan gynnwys 30% sydd wedi'i dynodi'n safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol.
34. Mae amrywiaeth a phwysigrwydd archaeolegol a hanesyddol ardal y Parc Cenedlaethol wedi'i gydnabod ers tro byd, ac mae 284 o Henebion Rhestredig yn y Parc, dros 1200 o Adeiladau Rhestredig, a 14 o Ardaloedd Cadwraeth. Mae ardaloedd fel Penmaen Dewi a Dyfrffordd Aberdaugleddau yn bwysig yn genedlaethol o safbwynt y dirwedd hanesyddol, ac mae'r Ardaloedd Cadwraeth yn amrywio o Ddinbych-y-pysgod, sef un o'r trefi mwyaf a mwyaf hanesyddol mewn unrhyw Barc Cenedlaethol, i bentref bach iawn Caerfarchell ar Benrhyn Tyddewi.
35. Y prif ddiwydiannau sy'n dylanwadu ar y Parc Cenedlaethol yw amaethyddiaeth, twristiaeth, a diwydiannau ynni Dyfrffordd Aberdaugleddau. Mae'r Parc yn cynnig nifer o gyfleoedd hamdden i ymwelwyr a thrigolion, gan gynnwys Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro, sy'n 299km i gyd. Mae proffil o boblogaeth y Parc i'w weld yn Atodiad 2, 'Proffil o'r Boblogaeth'.



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Atgynhychwyd o fapiau'r Arolwg Ordnans â chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu drafodion sifil. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - trwydded hawlfraint/rhif cyfrif 100022534

Beth y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol hwn am ei gyflawni?

36. Mae dau ddiben statudol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, sydd wedi'u nodi yn Neddf Amgylchedd 1995:

- cadw a gwella prydfwrthwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau a deall nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol

ynghyd â dyletswydd statudol:

- wrth ymgymryd â'r dibenion hyn, ceisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol.

37. Rôl ganolog yr Awdurdod Parc Cenedlaethol hwn yw cymryd y camau sydd eu hangen i roi dibenion Parciau Cenedlaethol ar waith.

Sut y mae'r cynllun newydd hwn yn cyd-fynd â Chynlluniau eraill sy'n cael eu paratoi ar gyfer yr ardal?

38. Mae nifer o gynlluniau a phrosesau eraill yn berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol. Yn yr un modd, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn hynod berthnasol i gynlluniau eraill. Rhaid i'r berthynas hanfodol rhwng pob un o'r cynlluniau hyn olygu eu bod yn ategu ei gilydd, ac yn ychwanegu gwerth. Mae nifer o'r rhai mwyaf berthnasol wedi'u rhestru isod, ond nid yw hon yn rhestr gyflawn. Mae'r Papurau Cefndir yn rhoi rhagor o fanylion am sut rydym wedi ystyried deddfwriaeth, strategaethau a chynlluniau berthnasol. Efallai y bydd deddfwriaeth, cynlluniau a strategaethau eraill yn y dyfodol yn dod yn berthnasol gydol y broses Adolygu, a bydd angen ystyried goblygiadau'r rhain i'r Cynllun Newydd.

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-20
- Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2015-19
- Cynllun Corfforaethol y Parc Cenedlaethol 2016/17
- Cynllun Cyfun Unigol Sir Benfro 2013-2018
- Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Chanllawiau
- Cynlluniau Datblygu Lleol Awdurdodau Cyfagos (Cyngor Sir Benfro, Cyngor Sir Gâr a Chyngor Sir Ceredigion)
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Benfro
- Cynlluniau Rheoli Traethlin (Gorllewin Cymru a De Cymru) 2014

39. Mae Adran 62 (ii) o Ddeddf Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau 'roi sylw i' [*have regard to*] ddibenion Parc Cenedlaethol wrth ymgymryd â'u busnes eu hunain. Byddwn yn ceisio sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn gyfrwng allweddol a rennir i ni a'n partneriaid fynegi ein hymrwymiaadau i'r deilliannau hyn pan fo'n berthnasol.

Pam na ellid paratoi cynllun newydd ar y cyd â Chyngor Sir Penfro?

40. Fel rhan o broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, mae'n ofynnol ystyried manteision ac anfanteision llunio Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd â Chyngor Sir Penfro. Mae hyn wedi'i ystyried yn llawn yn Adroddiad yr Adolygiad. Ar ôl nodi'r holl ystyriaethau, daw Adroddiad yr Adolygiad i'r casgliad y byddai unrhyw gam i lunio cynllun ar y cyd yn ei gwneud yn ofynnol cynnal ailasesiad sylfaenol o'r ddwy strategaeth, gan olygu y byddai angen llawer iawn mwy o waith ac o dystiolaeth ategol nag a ddisgwyllir fel arall ar gyfer adolygu Cynlluniau unigol. I'r Cyngor, byddai adolygiad cynnar a diangen o'r Cynllun yn creu cryn gost ychwanegol ddiangen (o ran adnoddau staff ychwanegol), ac ar yr un pryd byddai'n arwain at ansicrwydd di-fudd o ran gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn ystod y broses o lunio'r cynllun; yn ogystal, byddai disgwyl wynebu adolygiad cynnar pellach yn sgil ad-drefnu Llywodraeth Leol. Cytunwyd y bydd Cynlluniau ar wahân yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, bydd y ddau Awdurdod yn parhau i gydweithio ymhellach ar gronfa dystiolaeth i ategu'r broses o weithredu ac adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol yr Awdurdod a'r Cyngor.

2. Yr Amserlen

Cyfnodau Paratoi Allweddol

41. Mae amserlen y Cynllun Datblygu Lleol yn gwahaniaethu rhwng:

- **Cyfnodau diffiniol**, hyd at y cyfnod adneuo statudol, a chan gynnwys y cyfnod hwnnw; mae'r rhain o dan reolaeth uniongyrchol yr Awdurdod ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddyddiadau targed realistig; a'r
- **Cyfnodau dangosol**, y tu hwnt i'r cyfnod adneuo statudol, ac sy'n dibynnu ar ffactorau allanol (e.e. nifer y sylwadau a geir, capasiti'r Arolygydd Cynllunio annibynnol, ac yn y blaen); nid oes gan yr Awdurdod gymaint o reolaeth arnynt. Bydd y dyddiadau hyn yn cael eu hailystyried ar ôl cyrraedd y cyfnod adneuo ac yn cael eu troi'n amseriadau diffiniol ar gyfer y cyfnodau sy'n weddill; bydd hyn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn cytuno arno. Ar ôl cytuno, rhaid tynnu sylw'r cyhoedd.

42. Cynigir y dylid cynnwys lefel oddefiant sy'n cyfateb i ddau fis yn yr amserlen arfaethedig er mwyn creu lle ar gyfer llithiant heb ddiwygio'r Cytundeb Cyflawni'n ffurfiol. Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol - Argraffiad 2, Awst 2015, yn gofyn am i drefniadau craffu corfforaethol, sy'n annibynnol ar y tîm sy'n llunio'r cynllun, gael eu sefydlu i fonitro'r cynnydd.⁹ Mae gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol weithdai rheolaidd ar waith ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol, sy'n rhoi cyfle i Aelodau fonitro'r cynnydd.

43. Mae'r amserlen a ganlyn yn cymryd y bydd yr Adroddiad drafft ar yr Adolygiad ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2016.¹⁰ Bydd Adroddiad terfynol yr Adolygiad yn pennu'r prif feysydd yn y Cynllun lle y mae angen ymgymryd â'r gwaith ymgysylltu mwyaf. Mae'r amserlen isod yn adlewyrchu'r meysydd i'w hadolygu sy'n hysbys ar hyn o bryd. Mae'n rhagweld y bydd y broses hyd at gyflwyno yn para dwy flynedd a hanner. Yn hanesyddol, mae'r Arolygiaeth wedi rhoi gwybod, yn achos Cynllun Datblygu Lleol cyntaf, y gellir anfon adroddiad yr Arolygydd at yr Awdurdod cyn pen blwyddyn o'r dyddiad cyflwyno. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gynlluniau newydd fod ar waith mewn llawer llai na 4 blynedd.

Cyfnod (y Cynllun Newydd)	Camau	Dyddiad Targed ar gyfer Cwblhau a Chyhoeddiadau/ Dogfennau a Gyflwynir
Adroddiad yr Adolygiad	<ul style="list-style-type: none"> - Ystyried casgliadau Adroddiadau Monitro Blyneddol a fersiwn ddiweddaraf y gronfa dystiolaeth a'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid. - Paratoi'r Adroddiad a cheisio barn anffurfiol gan Lywodraeth Cymru. - Cyhoeddi tystiolaeth a phapurau cefndir 	<ul style="list-style-type: none"> - <i>Cymeradwyaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i ymgynghoriad anffurfiol, Mawrth 2016</i> - <i>Ymgynghoriad 8 wythnos, Ebrill/Mai</i> - <i>Gweithdai gyda Chynghorau Tref a Chymuned, Ebrill 2016</i> - <i>Adroddiad ar yr ymgynghoriadau/rhoi'r wedd derfynol, yr</i>

⁹ Paragraff 4.1.5 o'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol – Argraffiad 2 - Awst 2015

¹⁰ Paragraff 10.1.1 o'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol – Argraffiad 2 - Awst 2015; mae'n cyfeirio at broses gyflym o gyhoeddi Adroddiad yr Adolygiad cyn pen 6 mis ar ôl dechrau'r broses adolygu.

Cyfnod (y Cynllun Newydd)	Camau	<i>Dyddiad Targed ar gyfer Cwblhau a Chyhoeddiadau/ Dogfennau a Gyflwynir</i>
	<ul style="list-style-type: none"> - Ymgynghoriad Anffurfiol - Cymeradwyaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol - Cyflwyno i Lywodraeth Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Awdurdod Parc Cenedlaethol, Mehefin/Gorffennaf 2016</i> - <i>Cyhoeddi Adroddiad yr Adolygiad</i>
Y Cytundeb Cyflawni (Rheoliadau 9 a 10¹¹) a Rheoliadau 2(3)¹²	<ul style="list-style-type: none"> - Adolygu Cytundeb Cyflawni y Cynllun cyntaf - Ymarfer ymgynghori anffurfiol. - Cymeradwyaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol - Cyflwyno i Lywodraeth Cymru i gytuno arno – Ar ôl cael cytundeb, tynnu sylw'r cyhoedd a hysbysu pob un o'r cyrff ymgynghori penodol, a'r cyrff ymgynghori cyffredinol hynny y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y mae'n briodol eu cynnwys, fod y Cytundeb Cyflawni wedi'i ddiwygio. (Rheoliadau 9(4A)a(5), a 10(2)) 	<ul style="list-style-type: none"> - <i>Gweithdy Aelodau ym mis Mawrth 2016 a gwahodd i gyflwyno sylwadau</i> - <i>Cymeradwyaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i ymgynghoriad anffurfiol, Mawrth 2016</i> - <i>Proses ymgysylltu ac ymgynghori 8 wythnos, Ebrill/Mai 2016</i> - <i>Gweithdai gyda Chynghorau Tref a Chymuned, Ebrill 2016</i> - <i>Adroddiad ar yr ymgynghoriadau/rhoi'r wedd derfynol, yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, Mehefin/Gorffennaf 2016</i> - <i>Cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i Lywodraeth Cymru er mwyn cytuno arno, Mehefin/Gorffennaf 2016.</i> - <i>Cyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun Newydd pan gytunir arno</i>
Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd	<ul style="list-style-type: none"> - Adolygu'r wybodaeth llinell sylfaen - Adolygu dangosyddion ac amcanion - Ystyried ymatebion a diwygio - Cymeradwyaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol - Cyhoeddi 	<ul style="list-style-type: none"> - <i>Gweithdy Aelodau, Mawrth 2016</i> - <i>Cymeradwyaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i ymgynghoriad ffurfiol, Mawrth 2016</i> - <i>Proses ymgynghori 8 wythnos, Ebrill/Mai 2016</i> - <i>Adroddiad ar yr ymgynghoriadau/rhoi'r wedd derfynol, yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, Mehefin 2016</i> - <i>Cyhoeddi'r Adroddiad</i>

¹¹ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005

¹² Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015

Cyfnod (y Cynllun Newydd)	Camau	<i>Dyddiad Targed ar gyfer Cwblhau a Chyhoeddiadau/ Dogfennau a Gyflwynir</i>
		<i>Cwmpasu, Mehefin/Gorffennaf 2016</i>
Cyfranogi Cyn Adneuo (Rheoliad 14)	<ul style="list-style-type: none"> - Gwirio/Diwygio meini prawf ynghylch dewis safleoedd, - Paratoi Cofrestr o Ddarpar Safleoedd (gwahodd pobl i gyflwyno safleoedd gan ddefnyddio'r meini prawf ynghylch dewis) - Ystyried goblygiadau'r gronfa dystiolaeth ddiwygiedig - Gwirio/Diwygio'r amcanion a'r weledigaeth strategol - Gwirio/Diwygio Opsiynau Strategol a'r Opsiwn a Ffafirir/y Dewis Strategaeth. Gwerthuso unrhyw safleoedd a gyflwynir yn ôl y meini prawf ynghylch safleoedd - Adolygu'r Arfamiad o Gynaliadwyedd gwreiddiol ynglŷn â'r Dewisiadau a'r Strategaeth a gynigir ac argymhell newidiadau neu welliannau. - Adroddiad Sgrinio'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb 	<ul style="list-style-type: none"> - <i>Trafod meini prawf Darpar Safleoedd – gweithdai Cynghorau Tref a Chymuned, Ebrill 2016</i> - <i>Gweithdy Aelodau – Cytuno ar y meini prawf ynghylch dewis yn yr Awdurdod Parc Cenedlaethol (Awdurdod Parc Cenedlaethol, Mehefin/Gorffennaf 2016)</i> - <i>Gwahoddiad i gyflwyno Darpar Safleoedd, Awst/Medi/Hydref 2016</i> - <i>Ymgymmerwyr statudol perthnasol ynghylch Dewis Darpar Safleoedd, Tachwedd/Rhagfyr 2016</i> - <i>Ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch Meysydd y gellid eu Newid, tan fis Rhagfyr 2016</i> - <i>Gwaith ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned ynghylch dewis Darpar Safleoedd/Meysydd y gellid eu Newid, Ionawr/Chwefror 2017</i> - <i>Gweithdai Aelodau tan fis Chwefror 2017</i> - <i>Paratoi dogfennau'r Strategaeth Ddrafft a Ffafirir i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer ymgynghoriad, Mawrth 2017</i>
Ymgynghori Cyn Adneuo (Rheoliadau 15, 16 a 16a¹³)	<ul style="list-style-type: none"> - Cyhoeddi dogfennau'r Cynigion ynghylch y Dewis Strategaeth gan 	<ul style="list-style-type: none"> - <i>Dogfennau'r Cynigion ynghylch y Dewis Strategaeth (gweler y</i>

¹³ Ychwanegwyd Rheoliad 16A o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015

Cyfnod (y Cynllun Newydd)	Camau	<i>Dyddiad Targed ar gyfer Cwblhau a Chyhoeddiadau/ Dogfennau a Gyflwynir</i>
	<p>gynnwys y Gofrestr o Ddarpar Safleoedd, Adroddiad yr Adolygiad, Papurau Cefndir, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd</p> <ul style="list-style-type: none"> - Ymgynghoriad Statudol - Ystyried Ymatebion - Ymgysylltu â rhanddeiliaid os oes angen yn sgil tystiolaeth newydd - Gweithdai Aelodau - Paratoi Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol - Cytuno ar y Dewis/Strategaeth a Ffafir a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, ac yn y blaen. 	<p><i>golofn ganol)</i></p> <ul style="list-style-type: none"> - <i>Ymgynghoriad Statudol ynghylch yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (6 wythnos) Ebrill/Mai 2017</i> - <i>Cyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol i wneud hynny</i>
Adneuo (Rheoliadau 17, 18 a 19)	<ul style="list-style-type: none"> - Adolygu polisïau mwy manwl ar gyfer y Cynllun Adnau nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghyfnod y Dewis Strategaeth. - Adolygu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ynglŷn â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol Adnau. - Adolygu a diweddarau Proses Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun cyntaf - Adolygu a diweddarau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun cyntaf - Adolygu a diweddarau'r Asesiad o Effaith y Dewis Strategaeth ar Gydraddoldeb - Ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol - Gweithdai Aelodau - Ymgynghoriad statudol 	<p><i>Rhoi'r wedd derfynol ar ddogfennau'r Cynllun Adnau, i'w cymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad, Mawrth 2018</i></p> <p><i>Ymgynghoriad statudol (6 wythnos) Ebrill/Mai 2018</i></p>
Cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w Archwilio (Rheoliad 22)	<ul style="list-style-type: none"> - Gwerthuso'r sylwadau a gyflwynwyd - Ailystyried amserlen y 	<p><i>Gweithdy Aelodau Cytuno ar y Dogfennau i'w Cyflwyno, yr Awdurdod Parc</i></p>

Cyfnod (y Cynllun Newydd)	Camau	Dyddiad Targed ar gyfer Cwblhau a Chyhoeddiadau/ Dogfennau a Gyflwynir
	Cytundeb Cyflawni; cyflwyno amseriadau diffiniol ar gyfer y cyfnodau sy'n weddill - Cyflwyno'r Dogfennau	Cenedlaethol, Rhagfyr 2018 ¹⁴
Archwiliad Annibynnol (Rheoliad 23)	- Prawf o gadernid y Cynllun	Sesiynau Gwranddo Gwanwyn 2019 Llyfrgell Ymholiadau Datganiadau ynghylch yr Achos
Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd (Rheoliad 23)	-	Erbyn mis Rhagfyr 2019 Adroddiad yr Arolygydd
Mabwysiadu (Rheoliad 25)	- Sicrhau bod y Cynllun ar waith cyn pen 8 wythnos ar ôl cael Adroddiad yr Arolygydd.	Diwedd 2019/Blwyddyn Newydd 2020 Tynnu sylw'r cyhoedd at y cynllun mabwysiedig
Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a Datganiad ar ôl Mabwysiadu	- Diwygio'r Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i gynnwys newidiadau yn dilyn archwiliad Annibynnol. - Pan fo'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i fabwysiadu, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, cyhoeddi datganiad am sut y mae materion cynaliadwyedd wedi'u hystyried.	Diwedd 2019/Blwyddyn Newydd 2020 Tynnu sylw'r cyhoedd at yr Adroddiad terfynol ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, ochr yn ochr â'r cynllun a fabwysiadwyd
Monitro ac Adolygu (Rheoliad 37)	- <i>Monitro'r broses o gyflawni targedau ac unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Cynllun, ac adolygu'r Cynllun yn ôl yr angen.</i>	Yn flynyddol Adroddiad Monitro Blynyddol

44. Mae'r Awdurdod wedi dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru drwy amcangyfrif amserlen bedair blynedd ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a disgwylir y bydd yn cymryd llawer llai na 4 blynedd i lunio cynllun newydd.¹⁵

¹⁴ 2 flynedd a 6 mis nes y cyflwynir. Yn hanesyddol, ymrwymodd yr Arolygiaeth i ddarparu Adroddiad Arolygydd cyn pen blwyddyn ar ôl cyflwyno.

¹⁵ Paragraff 10.2.5 o'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Argraffiad 2, Awst 2015

Dulliau Ymgynghori/Hysbysu ar gyfer pob cam paratoi allweddol

Cam Ymgynghori/Hysbysu (Cynllun Newydd)	Dull
Cyhoeddi'r Adroddiad ar yr Adolygiad, y Cytundeb Cyflawni a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd	<ul style="list-style-type: none"> - Gwefan - Hysbysu'r ymgynghoreion sydd ar y rhestr bostio yn ysgrifenedig drwy lythyr/e-bost (gan gynnwys y rheini sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 4) - Datganiad i'r Wasg (a hysbysiad cyhoeddus yn y Pembrokeshire Herald) - Mynediad ar gael y we yn Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol, ac mewn llyfrgelloedd cyhoeddus¹⁶ - Dogfennau ar gael yn y Canolfannau Gwybodaeth i Ymwelwyr yn Nhrefdraeth, Tyddewi a Dinbych-y-Pysgod.
Gwahoddiad i gyflwyno Darpar Safleoedd	<ul style="list-style-type: none"> - Gwefan - Hysbysu'r ymgynghoreion sydd ar y rhestr bostio yn ysgrifenedig drwy lythyr/e-bost (gan gynnwys y rheini sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 4) - Datganiad i'r Wasg (a hysbysiad cyhoeddus yn y Pembrokeshire Herald).
Ymgynghoriad ar y Strategaeth Ddewisol Ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo Cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w Archwilio Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd Mabwysiadu	<ul style="list-style-type: none"> - Gwefan - Hysbysu'r ymgynghoreion sydd ar y rhestr bostio yn ysgrifenedig drwy lythyr/e-bost (gan gynnwys y rheini sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 4) - Datganiad i'r Wasg yn y Pembrokeshire Herald - Y dogfennau ar gael i'w harchwilio yn Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Canolfannau Gwybodaeth i Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol ac mewn llyfrgelloedd cyhoeddus¹⁷ - Dogfennau ar gael yn y Canolfannau Gwybodaeth i Ymwelwyr yn Nhrefdraeth, Tyddewi a Dinbych-y-Pysgod.

¹⁶ Mae prif swyddfa'r Parc Cenedlaethol yn Noc Penfro. Mae ein Canolfannau Gwybodaeth i Ymwelwyr yn Ninbych-y-pysgod, Trefdraeth a Thyddewi. Mae'r llyfrgelloedd cyhoeddus yn cynnwys Aberteifi, Crymch, Abergwaun, Hwlfordd, Aberdaugleddau, Arberth, Trefdraeth, Neyland, Penfro, Doc Penfro, Saundersfoot, Sanclêr, Tyddewi, Dinbych-y-pysgod

¹⁷ Mae prif swyddfa'r Parc Cenedlaethol yn Noc Penfro. Mae ein Canolfannau Gwybodaeth i Ymwelwyr yn Ninbych-y-pysgod, Trefdraeth a Thyddewi. Mae'r llyfrgelloedd cyhoeddus yn cynnwys Aberteifi, Crymch, Abergwaun, Hwlfordd, Aberdaugleddau, Arberth, Trefdraeth, Neyland, Penfro, Doc Penfro, Saundersfoot, Sanclêr, Tyddewi, Dinbych-y-pysgod

Pa adnoddau y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn eu hymrwymo i hyn?

Staff y Cynllun Datblygu

45. Gwasanaeth Cyfarwyddo'r Parc sy'n gyfrifol am y Cynllun Datblygu Lleol. Mae dau gynllunydd yn y tîm ynghyd â Swyddog Ymchwil a Chynaliadwyedd. Mae Pennaeth Gwasanaeth Cyfarwyddo'r Parc a'r Cyfarwyddwr Cynllunio hefyd yn gynllunwyr. Maent wedi'u cefnogi gan swyddog cymorth gweinyddol.

Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol

46. Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi trefnu cyfres o weithdai i Aelodau, sy'n cynnwys pob Aelod o'r Awdurdod. Mae'r gweithdai'n rhoi cyfle i drafod priodoldeb y dull a fabwysiadir wrth ddatblygu'r Cytundeb Cyflawni, y Cynllun Datblygu Lleol a'r gwahanol arfarniadau. Bydd y grŵp hefyd yn ystyried pob ymateb i ymgynghoriadau cyn iddynt gael eu hystyried mewn Cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.
47. Bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol (18 o aelodau) yn gyfrifol am wneud pob un o'r penderfyniadau allweddol ym mhob cyfnod yn y broses o barato'i'r Cynllun.

A all unrhyw beth fynd o'i le o ran yr amserlen sy'n cael ei chynnig?

48. Er gwaethaf yr ymgais i gynllunio ar gyfer pob posibilrwydd, gall rhwystrau ddod i'r amlwg. Mae problemau a all achosi anawsterau o ran cadw at yr amserlen a gynnigir neu o ran gweithredu'r rhaglen ymgysylltu a gynnigir wedi'u nodi yn Atodiad 3.
49. Mae mesurau lliniaru posibl wedi'u nodi yn y golofn derfynol. Er y gweithredir â'r dymuniadau gorau, cynigir o hyd y dylid cynnwys lefel oddefiant sy'n cyfateb i ddau fis yn yr amserlen a gynnigir er mwyn creu lle ar gyfer llithriant heb ddiwygio'r Cytundeb Cyflawni yn ffurfiol.

3. Y Cynllun Cynnwys Cymunedau

Tim y Cynllun Datblygu Lleol a strwythur y broses o wneud penderfyniadau

50. Mae'n ofynnol i swyddogion yn yr Awdurdod:

- Sicrhau bod y broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei chynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r arferion gorau.
- Defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y modd gorau.
- Paratoi a chynnal cronfa dystiolaeth gyfoes ar gyfer y broses adolygu a nodi newidiadau allweddol i'r cyd-destun a gafwyd ers mabwysiadu'r Cynllun cyntaf.
- Mynd ati i ymgysylltu â nifer o grwpiau a chyrff gwahanol fel y disgrifir isod drwy gydol y broses Adolygu.
- Cyfuno deilliannau'r gwaith ymgysylltu hwn, ynghyd â'r gronfa dystiolaeth, a llunio argymhellion polisi ar gyfer y Cynllun Newydd drwy gydol y cyfnodau amrywiol er mwyn cyd-fynd â Phroffion Cadernid yr Arolygiaeth Gynllunio (gweler Atodiad 1).
- Cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion i aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w cymeradwyo ym mhob cyfnod allweddol a chymryd camau yn ôl cyfarwyddiadau.
- Cynnal gweithdai i roi gwybodaeth i Aelodau ac ymgynghorion am gyfnodau allweddol, a thrafod canfyddiadau ac argymhellion o ran polisïau.

51. Mae'n ofynnol i Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol:

- Weithredu er budd y Parc Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd.
- Darparu cyngor ar ffurf Panel Trafod Syniadau i Swyddogion yn ystod y gwaith o baratoi dewisiadau polisi a dogfennau adolygu allweddol.
- Ystyried argymhellion Swyddogion mewn cyfnodau allweddol yn y broses adolygu a gwneud penderfyniadau ar ran yr Awdurdod.

52. Bydd yn ofynnol cael cymeradwyaeth ffurfiol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol mewn cyfnodau adolygu allweddol, gan gynnwys Adroddiad yr Adolygiad, y Cytundeb Cyflawni, y Dewis Strategaeth, cynigion Adnau a'r broses fabwysiadu derfynol.

53. Bydd unrhyw newid arfaethedig i bolisïau yn destun ymgynghoriad â'r cyhoedd gan gydymffurfio â pholisïau, canllawiau a rheoliadau cenedlaethol. Yn y diwedd bydd yr Arolygydd penodedig yn gallu ychwanegu polisïau at y Cynllun, eu newid, neu eu dileu, a bydd yn archwilio cadernid y Cynllun Newydd. Bydd yr Awdurdod yn dilyn y cyngor a roddir yn adran 2.8 o Bolisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 8, Ionawr 2016, wrth ystyried statws y Cynllun newydd sy'n datblygu.

Pam y dylid cymryd rhan?

54. Mae unrhyw sefydliad sy'n effeithio ar bobl, sefydliadau partner a chymunedau yn gwybod bod cael eu cymorth gweithredol a gwirfoddol yn gwneud gwahaniaeth enfawr. Mae'n bwysig ein bod yn deall yr hyn sy'n bwysig i'r gymuned a pha fath o le yr ydym oll yn meddwl y dylai'r Parc Cenedlaethol fod. O nodi materion i helpu i sicrhau bod prosiect neu gynllun yn cael ei weithredu, mae gwaith effeithiol o gynnwys y gymuned yn chwarae rhan allweddol yn y broses.

55. Mae'r gwaith o lunio Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn creu cyfle i'r Awdurdod fireinio'i broses o ymgysylltu, i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r broses wreiddiol o lunio Cynllun

Datblygu Lleol er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn creu'r dull mwyaf effeithiol o gynnwys y gymuned.

Pa egwyddorion ymgysylltu y gallwch eu disgwyl gennym?

56. Mae'r Awdurdod wedi rhoi ei enw i lawr i'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd.¹⁸ a ganlyn, sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid, yn sylfaenol i'r broses o gyflawni'r cynllun hwn:
- Byddwn yn ceisio sicrhau bod y broses, y cynigion ynghylch polisi a'r strategaeth, a'r broses o wneud penderfyniadau mor hygyrch a hawdd i'w deall ag y bo modd.
 - Byddwn yn ceisio defnyddio'r wybodaeth a'r rhwydweithiau presennol yn y modd gorau er mwyn osgoi dyblygu a chreu diflastod ar ymgynghori.
 - Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cyfathrebu ac yn ymgynghori â phob rhan o'r gymuned, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn draddodiadol wedi cymryd rhan yn y broses o lunio cynlluniau, gan ddefnyddio amryw o d dulliau priodol i sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf.
 - Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod adborth yn cael ei gyflwyno, a'i fod yn rhan annatod o'n prosesau o wneud penderfyniadau.
 - Bydd mewnbynnau ac allbynnau pob un o'n mesurau ymgysylltu yn wybodaeth gyhoeddus.
 - Byddwn yn anelu at ddatblygu consensws gan barhau i fod yn realistig, a chan gydnabod ei bod yn fwy tebygol datblygu consensws wrth ddatblygu dewisiadau yn hytrach nag wrth ysgrifennu polisiâu manwl y Cynlluniau; wrth anelu at gytuno ynghylch pa faterion yw'r rhai pennaf yn hytrach na sut i ymateb; ac wrth gytuno ar yr hyn y mae angen ei ddatblygu yn hytrach nag ymhle y mae'n cael ei ddatblygu.
 - Byddwn yn anelu at amlinellu'n glir ymhle y ceir cyfleoedd ar gyfer disgresiwn lleol ac ymhle y mae angen parchu polisiâu cenedlaethol a dynodiadau statudol.

Beth y bydd ei angen amom gennych chi?

57. Bydd ar yr Awdurdod angen i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y broses ddatgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cynllun datblygu cyhyd ag y gallant, a hynny yn ôl yr amserlenni a bennir yn y Cytundeb Cyflawni. Mae hyn yn hollbwysig ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn modd teg, tryloyw ac agored er mwyn cyfrannu at y broses o ddatblygu polisiâu. Bydd yr Awdurdod yn disgwyl i bobl a sefydliadau roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am unrhyw newidiadau i fanylion cyswllt.
58. Bydd pawb sy'n cyflwyno sylwadau am y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu hannog i gysylltu eu sylwadau â'r profion cadernid (Atodiad 1).

Ymgysylltu'n Ddwieithog

- Mae'r Awdurdod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg a bydd gohebwyd yn cael ymateb yn iaith y llythyr gwreiddiol. Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi o ran prosesu eich sylwadau.
- Bydd pob llythyr safonol, ffurflen sylwadau, cylchlythyr a hysbysiad cyhoeddus yn ddwieithog.

¹⁸ Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd: <http://www.participationcymru.org.uk/national-principles?seq.lang=cy-GB>

59. Ymgysylltir yn ddwyieithog yn unol â Safonau'r Gymraeg:¹⁹
- Bydd pob cyhoeddiad polisi a chanllawiau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ddwyieithog.
 - Bydd holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ddwyieithog.
 - Bydd pob cyfarfod, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, yn cael ei gynnal yn ddwyieithog pan wneir cais o flaen llaw.

Pwy fydd yn cael ei gynnwys, a sut?

60. Byddwn yn defnyddio amryw o ffyrdd i sicrhau ein bod yn cysylltu â phobl a'u bod yn cadw mewn cysylltiad â ni drwy gydol y broses a nodir yn Amserlen y Cynllun Datblygu Lleol (Pennod 2).
61. Mae'r ymgynghoreion wedi'u gosod mewn grwpiau gwahanol²⁰ yr ystyrir ei bod fwyaf priodol cael dulliau ymgysylltu gwahanol ar gyfer pob un, a hynny er mwyn sicrhau y ceir y manteision mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael. Sylwch: nid yw'r grwpiau'n annibynnol ar ei gilydd ac mae'n debyg y bydd unigolion neu sefydliadau yn cael eu cynrychioli gan fwy nag un grŵp yn ystod cyfnodau gwahanol y broses.

Y Cyhoedd

62. Gall gynnwys unrhyw aelod o'r cyhoedd yn Sir Benfro a thu hwnt. Gall unigolion, busnesau, sefydliadau a grwpiau gymryd rhan drwy gyflwyno sylwadau yng nghyfnodau allweddol y broses. Bydd y rhain yn ymwneud ag Adroddiad drafft yr Adolygiad a'i ddogfennaeth ategol, y Cytundeb Cyflawni drafft, y Cyfnod Ymgynghori Cyn Adneuo, a'r Cynllun Adnau, ac adeg yr Archwiliad.
63. Nid oes dim gofyniad statudol sy'n pennu bod rhaid i'r Awdurdod ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn ag Adroddiad yr Adolygiad neu'r Cytundeb Cyflawni, ond, er mwyn ymgysylltu'n gynnar ac yn barhaus, ystyrir ei bod yn bwysig gwneud hynny.
64. Er mwyn tynnu sylw'r nifer fwyaf o aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb (nad ydynt wedi'u cynnwys yn y grŵp postio uniongyrchol a eglurir isod), bydd gwybodaeth i'r cyhoedd ar wefan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol am y cynnydd a wnaed ac ynghylch pryd y gellir cyflwyno sylwadau.
- 65. Rôl** - Mae'r cyhoedd yn helpu'r Awdurdod i ddatblygu gwybodaeth leol fanwl am ardaloedd penodol yn y Parc Cenedlaethol. Gall unigolion sydd â gwybodaeth fanwl a phrofiad yng nghyswllt pynciau penodol sy'n berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol fod yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth i'r Awdurdod. Bydd y cyhoedd hefyd yn darparu adborth a fydd yn dangos yr ymateb y byddwn yn ei gael i argymhellion polisi, dyraniadau safleoedd a chynigion manwl eraill, a'r rhesymau dros gefnogaeth neu wrthwynebiad y cyhoedd.

Y Grŵp Postio Uniongyrchol

66. Gellir ychwanegu unrhyw unigolyn, sefydliad neu grŵp at Restr Bostio Uniongyrchol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fel y gellir rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn gyson ac yn awtomatig ym mhob cyfnod dilynol o'r broses. Mae pawb sy'n perthyn i'r grwpiau ymgynghori isod wedi'u cynnwys ar y rhestr bostio.
67. Er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn uniongyrchol am gynnydd a chyfleoedd i gyflwyno sylwadau, gall y cyhoedd anfon e-bost at cynlluniau@arfordirpenfro.org.uk gan roi manylion cyswllt, neu ffonio 01646 624

¹⁹ Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cyngorau Sir a Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015: <http://gov.wales/docs/dcells/consultation/141106-regulations-welsh-language-standards-cy.pdf>

²⁰ Gweler Atodiad B i'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Argraffiad 2, Awst 2015

800 a gofyn am gael eu cysylltu ag adran Gyfarwyddo'r Parc. Byddwn yn cysylltu â chi drwy anfon manylion am ymgynghoriadau sy'n mynd rhagddynt, neu gylchlythyrau am y cynnydd a wnaed hyd yma, yn uniongyrchol drwy'r post (neu drwy e-bost, pe bai'n well gennych hynny).

68. Bydd pawb sy'n cyflwyno sylwadau yn ystod y cyfnodau ymgynghori statudol yn cael eu hychwanegu at y Rhestr Bostio Uniongyrchol.

Grwpiau nas Clywir yn Aml²¹

69. Y grwpiau nad ydynt wedi cymryd rhan i raddau mawr yn draddodiadol yn y broses o baratoi Cynlluniau yw'r rhain, a bydd angen gwneud ymdrechion ychwanegol i annog y bobl neu'r grwpiau hyn i gymryd rhan. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddefnyddio fforymau sydd wedi'u sefydlu eisoes, pan fo modd.
70. Cydnabyddir ei bod yn bosibl nad oes gan rai o'r bobl nas clywir yn aml unrhyw gysylltiadau â fforymau presennol. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gyrraedd cynifer o rannau o'n cymuned ag y bo modd gan ddibynnu ar yr amser a'r adnoddau y mae'n rhesymol eu neilltuo i'r gwaith hwn.
71. Bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn targedu'r grwpiau a ganlyn yn arbennig o blith y rhai nas clywir yn aml.

- Sefydliadau Gwirfoddol sy'n gweithredu yn Sir Benfro, drwy gysylltu'n uniongyrchol â Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro – mae'r mathau o sefydliadau a grwpiau a gynrychiolir i'w gweld yn Atodiad 4 Grwpiau Ymgynghori²¹.
- Y Gymuned Sipsiwn-Teithwyr – drwy gysylltu â Grŵp Asesu Llety Sipsiwn-Teithwyr Cyngor Sir Penfro, gan gynnwys mynd i gyfarfodydd pan fo'n briodol.
- Ffermwyr – drwy gysylltu'n uniongyrchol â Grŵp Llywio Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro, gan gynnwys mynd i gyfarfodydd pan fo'n briodol. Mae'r mathau o sefydliadau a grwpiau a gynrychiolir i'w gweld yn Atodiad 4 Grwpiau Ymgynghori

72. **Rôl** – Bydd y rhai yr ymgysylltir â hwy yn cael cyfle i leisio dyheadau, gofynion neu bryderon y grwpiau hynny o bobl nad ydynt wedi ymwneud yn draddodiadol â phroses y Cynllun Datblygu Lleol. Drwy chwarae rhan weithredol, bydd y grwpiau hyn yn helpu'r Awdurdod i ystyried effeithiau ei gynigion ar y gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

Cynghorau Cymuned a Thref²²

73. Bydd yr Awdurdod yn ceisio ymgysylltu'n uniongyrchol â Chynghorau Cymuned a Thref mewn cyfnodau priodol. Bydd hyn cynnwys cynnal dwy gyfres o weithdai:
- Bydd y gyfres gyntaf yn codi ymwybyddiaeth am yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol gan ganolbwyntio ar Adroddiad drafft yr Adolygiad a'r Cytundeb Cyflawni drafft, ynghyd â'r broses o ddewis safleoedd.
 - Bydd yr ail gyfres yn canolbwyntio ar drafod y meysydd i'w newid sydd wedi'u cynnwys yn y Dewis Strategaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, a'r broses o ddewis safleoedd sy'n cyd-fynd â'r Dewis Strategaeth cyn yr Ymgynghoriad Cyn-Adneuo.

²¹ Mae'r rhestr i'w gweld yn Atodiad 4.

²² Mae'r rhestr i'w gweld yn Atodiad 4.

74. Mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio galluoedd rhwydweithio Cyngorau Tref a Chymuned i ddosbarthu gwybodaeth ledled cymunedau'r Parc Cenedlaethol ac i annog ymgysylltiad yn eu hardaloedd penodol.
75. **Rôl** – Gall Cyngorau Tref a Chymuned a'u Cyngorwyr fod yn ffynhonnell ganolog o wybodaeth i'w cymunedau lleol, gallant helpu i godi ymwybyddiaeth am y broses adolygu, a gallant drosglwyddo safbwyntiau lleol i'r Awdurdod.

'Cyrrff Ymgynghori Penodol' ac 'Adrannau Llywodraeth y DU' ²³

76. Mae'r ymgynghoreion hyn (Grwpiau B2 a B3 yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, 2015) yn cynnwys y cyrrff hynny sydd â swyddogaethau penodol sy'n gymwys y tu mewn i'r Parc Cenedlaethol, er enghraifft Dŵr Cymru, sef yr ymgymwrwr dŵr lleol. Mae angen hefyd i'r Awdurdod ymgynghori ag Adrannau Llywodraeth y DU pan fo'n ymddangos bod agweddau ar y cynllun yn effeithio ar eu buddiannau hwy.
77. Bydd yr ymgynghoreion hyn yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau mewn cyfnodau ffurfiol allweddol (statudol) yn y broses o baratoi'r Cynllun. Bydd rhai o'r grwpiau hyn hefyd yn aelodau pwysig o grwpiau rhanddeiliaid eraill (gweler Atodiad 4 Grwpiau Ymgynghori').
78. Mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd yn cyflwyno gwahoddiad i ymddangos yn y Gwrandawriadau Archwilio hyd yn oed os nad yw'r ymgynghorai statudol wedi mynegi gwrthwynebiad neu wedi dymuno ymddangos yn yr Ymchwiliad.
79. **Rôl** – bydd ymgynghoreion yn y grŵp hwn yn gallu darparu cyngor manwl a phroffesiynol ar gynigion y Cynllun Newydd, a nodi achosion posibl o wrthdaro â'u dyletswyddau penodol hwy, addasrwydd safleoedd i'w datblygu ynghyd â'r gallu i'w datblygu, achosion nas rhagwelwyd o wrthdaro â deddfwriaeth arall, ac yn y blaen.

Cyrrff Ymgynghori Cyffredinol ac Ymgynghoreion Eraill²⁴

80. Mae 'Cyrrff Ymgynghori Cyffredinol' yn cynnwys cyrrff gwirfoddol y mae eu gweithgareddau'n creu budd i'r Parc Cenedlaethol, y rhai sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwahanol o ran hil, crefydd, ethnigrwydd, cenedligrwydd neu anabled yn y Parc Cenedlaethol, ynghyd â'r rhai sy'n cynrychioli buddiannau personau sy'n ymgymryd â busnes a'r rhai sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys, er enghraifft, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Pensiynwyr Cymru, ac yn y blaen.
81. 'Ymgynghoreion Eraill' yw'r rhai nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'r categorïau o gyrrff ymgynghori cyffredinol a restrir uchod, ond sydd â buddiant yn y Parc Cenedlaethol y gall y Cynllun Datblygu Lleol effeithio arno. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys, er enghraifft, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Arolwg Daearegol Prydain, Fforwm Arfordir Sir Benfro, ac yn y blaen.
82. Bydd y cyrrff hyn yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau mewn cyfnodau ffurfiol allweddol (statudol). Bydd rhai o'r grwpiau hyn hefyd yn aelodau pwysig o grwpiau rhanddeiliaid eraill (gweler Atodiad 4 Grwpiau Ymgynghori').
83. **Rôl** – Rolau tebyg i'r rhai a nodir uchod gan ddibynnu ar natur y corff sy'n cael ei gynrychioli. Bydd disgwyl i nifer o'r cyrrff yn y ddau grŵp hyn ddosbarthu gwybodaeth ymysg eu cyrrff aelodaeth eu hunain er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn cyrraedd cynifer o bobl ag y bo modd â'r adnoddau sydd ar gael.

²³ Mae'r rhestr i'w gweld yn Atodiad 4.

²⁴ Mae'r rhestr i'w gweld yn Atodiad 4.

Rhanddeiliaid Allweddol²⁵

84. At ddibenion y Cynllun Datblygu Lleol newydd, o gofio y disgwylir i'r strategaeth barhau fel y mae ar y cyfan, y bwriad yw sefydlu cyswllt unigol gan gynnwys cyfarfodydd â rhanddeiliaid perthnasol i drafod meysydd i'w newid, cyn ymgynghori'n ffurfiol. Mae'r rhanddeiliaid hyn yn cynnwys:

- Awdurdodau cyfagos
- Dŵr Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Panel Busnes Sir Benfro
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Grŵp Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro
- Grŵp Tai Fforddiadwy ar gyfer Sir Benfro
- Rhwydwaith Ynni Cymunedol Sir Benfro
- Fforwm Arfordir Sir Benfro
- Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
- Partneriaeth Cyrchfan Sir Benfro

Caiff manylion rhanddeiliaid eu hychwanegu hefyd at y rhestr postio uniongyrchol.

Datblygwyr ac Asiantau a'r rhai sy'n cynnig safleoedd i'w datblygu

85. Gall unrhyw un sydd â buddiant mewn tir sydd o'r farn y byddai'n briodol i'w ddatblygu ddarparu manylion i Adran Gwasanaethau Cyfarwyddo'r Parc yn ystod cyfnod Darpar Safleoedd y broses ymgysylltu Cyn-Adneuo. Bydd ffurflen ar gyfer cyflwyno Darpar Safleoedd yn cael ei rhoi ar ein gwefan: www.arfordirpenfro.org.uk ynghyd â chanllawiau ar lenwi'r ffurflen.

86. Bydd y manylion hyn yn cael eu hychwanegu at Gofrestr o Ddarpar Safleoedd. Bydd y Gofrestr o Ddarpar Safleoedd yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Dewis Strategaeth yng nghyswllt y Cynllun Datblygu Lleol.

87. Bydd yr Awdurdod yn asesu unrhyw safle a gyflwynir cyn cyhoeddi Ymgynghoriad Cyn-Adneuo y Cynllun yn ôl meini prawf ar gyfer dewis safleoedd. Bydd y meini prawf ar gyfer dewis safleoedd yn cael eu paratoi yn y cyfnod cyfranogi cyn-adneuo. Bydd rhestr o safleoedd ar y gofrestr a fyddai'n gydnaws â'r Strategaeth y mae'r Awdurdod yn ei ffafrio yn cael ei chyhoeddi er mwyn cyflwyno sylwadau arni.

88. Mae'n hanfodol bwysig i hyrwyddwyr safleoedd posibl ddeall y bydd eu cyflwyno ar ôl cyfnod y Dewis Strategaeth yn golygu nad yw'n debyg y bydd modd eu hystyried i'w cynnwys yn y cynllun. Dylid nodi'n glir mai'r cais am ddarpar safleoedd yw'r adeg gywir i gyflwyno safleoedd fel y gellir ymgynghori arnynt yn ddigonol er mwyn llywio'r broses archwilio (y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Argraffiad 2, paragraff 5.3.4.3).

89. Os bu newid sylweddol i amgylchiadau sy'n effeithio ar safle a wrthodwyd yn flaenorol, neu os cyflwynir safle gwbl newydd, cyfrifoldeb y cynigydd yw rhoi effeithiau ei safle ar brawf gan ddefnyddio fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol (y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Argraffiad 2, paragraff 6.5.1.5).

90. Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Dewis Strategaeth, ni chaiff sylwadau eu harchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn foddhaol o ran yr Arfarniad o Gynaliadwyedd: caiff unrhyw broses archwilio ei chynnal fel rhan o'r archwiliad gerbron yr Arolygydd gan fod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn rhan o'r gronfa dystiolaeth a ddylai ategu'r polisiau a'r cynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol adnau. Os na fu safle newydd neu amgen yn destun unrhyw Arfarniad o Gynaliadwyedd, nid yw'n debygol y bydd yr Arolygydd mewn sefyllfa i

²⁵ Mae'r rhestr i'w gweld yn Atodiad 4.

argymell ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. (Y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Argraffiad 2, paragraff 6.5.1.6)

91. Yn ymgynghoriad y cyfnod Adneuo, os oes unrhyw brosesau statudol nad ydynt wedi'u cynnal ar gyfer safleoedd a gyflwynwyd yn hwyr yn ystod y broses baratoi, ni fyddai adroddiad yr Arolygydd yn gallu argymell y dylid eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. At hynny, pe bai newid o'r fath yn golygu nad yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn gadarn, ni fyddai'r Arolygydd yn gallu argymell o'i blaid. Felly, cyfrifoldeb y rhai sy'n hyrwyddo newidiadau o'r fath yw dangos bod y gweithdrefnau priodol wedi'u dilyn a darparu'r dystiolaeth angenrheidiol i ddangos y byddai'r cynllun yn gadarn pe bai'r safle yn cael ei gynnwys. Byddai hyn yn cynnwys dangos bod y safle yn cyd-fynd â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. (Y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Argraffiad 2, paragraff 7.4.4.7)
92. Bydd manylion ymatebwyr hefyd yn cael eu hychwanegu at y rhestr postio uniongyrchol.

Pa adborth y dylech ei ddisgwyl?

93. Ar ddiwedd cyfnodau sylweddol yn y broses adolygu, bydd adborth yn cael ei ddarparu am sylwadau a gyflwynir drwy gyfrwng:
- Llythyr neu e-bost cydnabod sy'n darparu manylion cyswllt a manylion am sut y bydd yr Awdurdod yn ymdrin â'r sylwadau. Mae cyngor ynghylch sut y bydd yn ymdrin â sylwadau a gyflwynir yn hwyr wedi'i nodi yn yr adran nesaf.
 - Bydd adroddiad ar yr ymgynghoriadau sy'n cynnwys ymatebion Swyddogion ar ôl pob cyfnod ymgynghori ar gael i'r cyhoedd. Bydd ymatebwyr yn cael gwybod pryd y bydd yr adroddiad ar yr ymgynghoriadau ar gael.
 - Bydd cydnabyddiaeth yn cael ei ddarparu yn yr un modd yn achos deisebau, a hynny i'r sawl a gyflwynodd y ddeiseb.

Bydd gwefan yr Awdurdod: www.arfordirpenfro.org.uk hefyd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.

Sylwadau a gyflwynir yn hwyr

94. Ni fydd yr Awdurdod ond yn ystyried sylwadau a gyflwynir yn unol â'r hysbysiad cyhoeddus perthnasol ar gyfer y cyfnod ymgynghori. Mae hyn yn golygu anfon sylwadau yn ysgrifenedig at yr Awdurdod Parc Cenedlaethol neu ar e-bost erbyn y dyddiad cau a nodir yn yr hysbysiad.
95. Er mwyn i sylwadau gael eu cofnodi'n sylwadau am Gynllun Datblygu Lleol 'a gafodd eu cyflwyno yn unol â'r drefn', rhaid iddynt nodi'r materion y maent yn ymwneud â hwy yn y cyfnod Ymgynghori Cyn-Adneuo. Yn y Cyfnod Adneuo, dylent nodi'r materion y maent yn ymwneud â hwy a'r newid a geisir, y rhesymau am eu cyflwyno, a phan fo modd y prawf neu'r profion o gadernid sy'n berthnasol iddynt.
96. Darperir cyngor ar gyflwyno safleoedd o dan 'Datblygwyr ac Asiantau a'r rhai sy'n cynnig safleoedd i'w datblygu.'
97. Dylai gwrthwynebiadau nodi'r newid a geisir, y rhesymau am eu cyflwyno a phan fo modd y prawf neu'r profion o gadernid sy'n berthnasol iddynt.
98. Gellir ystyried gwrthwynebiadau a gyflwynir yn unol â'r drefn yn y Cyfnod Adneuo yn yr Ymchwiliad. Nid yw'r Arolygydd yn ystyried sylwadau a gyflwynwyd yn y Cyfnod Cyn-Adneuo.

99. Os ceir sylwadau ar ôl y dyddiad cau a gwnaed ymgais glir â phob ewyllys da i'w cyflwyno mewn pryd, gall y sylwadau gael eu hystyried o hyd i fod wedi'u cyflwyno 'yn unol â'r drefn', ar yr amod bod tystiolaeth wrthrychol a phriodol o bostio neu ddsbarthu yn cael ei chyflenwi mewn modd sy'n bodloni'r Awdurdod i raddau rhesymol.
100. Gall y rhai sydd â hawl statudol i ymddangos gerbron Arolygydd yr archwiliad, a chael gwrandawriad ganddo (hynny yw, gwrthwynebwyd, y rhai sy'n ceisio newid i'r cynllun – o dan Adran 64(6) o Ddeddf 2004) gyflwyno eu gwrthwynebiadau gan ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig os nad ydynt yn dymuno ymddangos yn yr archwiliad. Mae Arolygwyr yn rhoi'r un pwys ar wrthwynebiadau a gyflwynir fel hyn ag y maent yn ei roi ar wrthwynebiadau a gyflwynir ar lafar yn yr archwiliad. (Y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Argraffiad 2, paragraff 7.4.4.2).

4. Monitro ac Adolygu

Y Cytundeb Cyflawni

101. Bydd y Cytundeb Cyflawni yn cael ei adolygu:
- Os yw'r broses o baratoi'r Cynllun yn methu â chadw at yr amserlen (hynny yw, mae dros ddau fis ar ôl yr amserlen)
 - Os oes angen gwneud newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau
 - Os ceir newidiadau sylweddol i'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer paratoi'r Cynllun
102. Bydd y broses o gyflawni amcanion y Cytundeb Cyflawni yn cael ei hasesu drwy bob cyfnod o'r gwaith o baratoi'r Cynllun.
103. Cyn pen 3 mis ar ôl diwedd y broses Adneuo, bydd amserlen wedi'i diweddarau sy'n troi'r amseriadau dangosol yn rhai diffiniol ar gyfer y cyfnodau sy'n weddill yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn cytuno arno.

Y Cynllun Datblygu Lleol

104. Rhaid cynnal adolygiad sylweddol o'r Cynllun Datblygu Lleol bedair blynedd ar ôl ei fabwysiadu am y tro cyntaf.
105. Bydd adroddiadau monitro blynyddol ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflwyno erbyn 31 Hydref bob blwyddyn i Lywodraeth Cymru, gan gwmpasu'r hyn a gyflawnwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol (sy'n dod i ben ym mis Mawrth). Bydd yr adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod a bydd unrhyw faterion hanfodol bwysig sy'n dod i'r amlwg yn cyfrannu at adolygiad o'r Cynllun.
106. Bydd yr Awdurdod yn ymgynghori bob blwyddyn ar bob Adroddiad Monitro, a bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cyfrannu at lunio'r Adroddiad Monitro dilynol.
107. Gallai adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol olygu bod angen Cynllun Datblygu Lleol newydd neu fod angen ei newid. Bydd Adroddiad yr Adolygiad yn cael ei baratoi cyn pen chwe mis ar ôl penderfyniad am yr angen i adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol pan fo'r rheoliadau angenrheidiol ar waith. Bydd adolygiad neu adolygiad rhannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol newid y Cytundeb Cyflawni drwy ymgynghori â Llywodraeth Cymru.

5. Beth fydd yn digwydd nesaf i'r ddogfen hon?

108. Mae canlyniadau ymarfer ymgynghori wedi cyfrannu at y ddogfen hon. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi ystyried pob ymateb a ddaeth i law i'r ymgynghoriad. Fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo'r Cytundeb Cyflenwi ym mis Mehefin 2016.
109. Ar ôl i Weinidogion Cymru gytuno arno, bydd y Cytundeb Cyflenwi a gymeradwyir yn ddogfen rwymol ar gyfer yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.
110. Bydd pawb a gymerodd ran yn cael adborth.

6. Manylion cyswllt defnyddiol

Yr Awdurdod Parc Cenedlaethol

I gael rhagor o wybodaeth, gallwch gysylltu â:

Richard James (Y Cynllun Datblygu Lleol)
Sarah Middleton (Y Cynllun Datblygu Lleol)
Martina Dunne (Y Cynllun Datblygu Lleol)

Phillip Barlow (Yr Arfarniad o Gynaliadwyedd)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA71 6DY

Ffôn:

01646 624 800

Ffacs:

01646 689076

E-bost:

cynlluniau@arfordirpenfro.org.uk

gwefan: www.arfordirpenfro.org.uk

Cymorth Cynllunio

Gwasanaeth gwirfoddol sy'n gysylltiedig â'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yw Cymorth Cynllunio, ac mae'n cynnig cyngor di-dâl, annibynnol a phroffesiynol ar faterion cynllunio trefol i grwpiau cymunedol ac unigolion nad ydynt yn gallu forddio cyflogi ymgynghorydd cynllunio. Dyma'r manylion cyswllt:

- Ffoniwch: 029 2062 5000
- E-bost drwy'r wefan: <http://www.planningaidwales.org.uk/english-contact-us/?lang=cy>
- Neu ysgrifennwch at: Cymorth Cynllunio Cymru, Y Llawr Cyntaf, 174 Heol yr Eglwys Newydd, Y Mynydd Bychan, Caerdydd. CF14 3NB

Atodiad 1 'Profion Cadernid'


- a) Cysyniad sylfaenol y system Cynlluniau Datblygu Lleol yw bod y cynllun yn deillio o broses drylwyr a chynhwysfawr o ymgysylltu â'r gymuned, pan fo'r awdurdod cynllunio wedi mireinio'r dewisiadau i lunio'r hyn y mae'n ei ystyried yn gynllun cadarn. Y rhagdybiaeth felly fydd fod y Cynllun Datblygu Lleol yn gadarn oni ddangosir fel arall, a hynny o ganlyniad i dystiolaeth a ystyrir yn yr archwiliad.
- b) O ganlyniad, bydd angen i'r rhai sy'n gwrthwynebu ddangos pam nad yw'r cynllun yn gadarn. Bydd pawb sy'n cyflwyno sylwadau am y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu hannog i gysylltu eu sylwadau â'r profion cadernid.
- c) Eto i gyd, cyfrifoldeb yr Arolygydd penodedig yn y cyfnod archwilio yw ystyried cadernid y cynllun yn ei gyfanrwydd. Er y bydd Arolygwyr yn dal yn ystyried gwrthwynebiadau unigol, byddant yn gwneud hynny drwy ystyried sut y mae'r rhain yn mynd i'r afael â chadernid cyffredinol y cynllun.
- d) Bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal ar ffurf trafodaeth gyhoeddus pan fydd y materion i'w trafod yn cael eu nodi o flaen llaw gan yr Arolygydd a phan fydd cyfranogwyr yn cael eu gwahodd i gyfrannu. Bydd gwahanol fathau o weithdrefnau'n cael eu defnyddio ond yn bennaf defnyddir gwrandawiaidau neu drafodaethau o amgylch bwrdd. Mae'n bosibl y bydd gwrandawiaidau ffurfiol yn cael eu defnyddio os yw'r Arolygydd o'r fam fod hynny'n angenrheidiol ac yn briodol. Bydd yr Arolygydd yn penderfynu ar y weithdrefn briodol gan gymryd mai gweithdrefn anffurfiol a ddefnyddir.
- e) Mae'r profion cadernid yn ymwneud â thri maes:
 - A yw'r cynllun yn cydweddu? (hynny yw, a yw'n amlwg bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cyd-fynd â chynlluniau eraill?)
 - A yw'r cynllun yn briodol? (hynny yw, a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)
 - A fydd y cynllun yn cyflawni? (hynny yw, a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

Mae rhagor o wybodaeth am y profion cadernid ar gael ar wefan yr Arolygiaeth <http://planninginspectorate.gov.wales/?skip=1&lang=cy> mewn dogfen o'r enw 'Archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol: Canllaw Gweithdrefnol (Awst 2015)'.

Atodiad 2 'Proffil o'r Boblogaeth'

Poblogaeth yn ôl grŵp oedran a rhyw

Cyfanswm amcangyfrifedig y boblogaeth yw 22,847; gwrywod yw 49.12% o'r boblogaeth a menywod yw 50.88% (ar sail amcangyfrifon canol blwyddyn 2013 o boblogaeth Parciau Cenedlaethol).



Gweithgarwch economaidd (canran y boblogaeth rhwng 16 a 74 oed)

	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Sir Benfro	Cymru
Economaidd weithgar			
Cyfanswm	65.4%	65.9%	65.7%
Cyflogaion	41.7%	46.2%	49.5%
Hunangyflogedig	19.0%	13.5%	8.6%
Di-waith	2.9%	4.0%	4.3%
Myfyriwr amser llawn	1.8%	2.2%	3.3%
Economaidd anweithgar			
Cyfanswm	34.5%	34.0%	34.2%
Wedi ymddeol	21.4%	18.7%	16.1%
Myfyriwr	3.7%	3.8%	6.0%

Yn gofalu am y cartref/teulu	3.3%	4.3%	3.8%
Yn anabl/yn sâl yn barhaol	4.4%	5.3%	6.3%
Eraill	1.7%	1.9%	2.0%

(diweddariad i gyfrifiad 2011).

Diwydiant cyflogaeth (canran y boblogaeth rhwng 16 a 74 oed)

Diwydiant	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Sir Benfro	Cymru
Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota	6.2%	4.7%	1.7%
Cloddio a chwarelu	0.5%	0.5%	0.2%
Gweithgynhyrchu	6.5%	7.6%	10.5%
Cyflenwi trydan, nwy, ager, ac aerdymheru	0.5%	0.7%	0.8%
Y cyflenwad o ddŵr; carthffosiaeth, rheoli gwastraff a gweithgareddau adfer	0.4%	0.7%	0.9%
Adeiladu	9.5%	10.7%	8.2%
Cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur	13.5%	15.7%	15.6%
Trafnidiaeth a storio	3.3%	4%	3.9%
Gweithgareddau llety a gwasanaeth bwyd	13.9%	8.7%	6.2%
Gwybodaeth a chyfathrebu	1.5%	1.2%	2.3%
Gweithgareddau ariannol ac yswiriant	1.2%	1.3%	3.1%
Gweithgareddau gwerthu tai	1.3%	1.2%	1.2%
Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	4.8%	4.1%	4.3%
Gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth	4.1%	3.6%	4%
Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol	5.5%	9.3%	7.9%
Addysg	9.7%	7.4%	10.1%
Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol	11.4%	13.4%	14.5%
Eraill	6.1%	5.2%	4.5%

Ffynhonnell y data: Cyfrifiad 2011

Tai

	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Sir Benfro	Cymru
Lleoedd aelwydydd â phreswylwyr			
Cyfanswm	10,277	53,122	1,302,676
Mewn perchnogaeth (â morgais neu heb forgais)	71.3%	68.8%	67.4%
Cyd-berchnogaeth (yn berchen yn rhannol ac yn rhentu'n rhannol)	0.3%	0.3%	0.3%
Wedi'u rhentu gan Awdurdod Lleol neu Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	11.4%	15.7%	16.4%
Wedi'u rhentu'n breifat	14.3%	13.5%	14.2%
Yn byw heb rent	2.7%	1.7%	1.6%

Atodiad 3 Risgiau i'r amserlen

Mater ²⁶	Lefel y risg	Effaith bosibl	Dull lliniaru
Prinder staff	Canolig	Llithriant y Rhaglen	Ceisio cymorth gan awdurdodau cynllunio eraill. Blaenoriaethu hysbysebion staff. Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar waith ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.
Materion Deddfwriaeth/Polisi/Llywodraethu Cenedlaethol sy'n esblygu	Uchel	Llithriant y Rhaglen	Monitro a mynd i'r afael â hyn pan fo'n ymarferol.
Diffyg adnoddau ariannol oherwydd mesurau caledi	Isel	Llithriant y Rhaglen	Cyflwyno cais am adnoddau fel rhan o'r rownd gyllidebu a rhaglennu'n unol â hynny. Cronfa wrth gefn ar waith ar gyfer Adolygu.
Lefelau gwrthwynebu annisgwyl	Isel	Llithriant y Rhaglen	Darparu hyblygrwydd yn yr amserlen
Nid yw'r Arolygiaeth Gynllunio neu ymgylgoreion statudol yn gallu cadw at yr amserlen	Isel	Llithriant y Rhaglen	Cysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio mewn cyfnodau allweddol o'r broses o baratoi'r Cynllun ac yn ystod y gwaith o baratoi'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth
Mae'r Cynllun yn methu'r prawf cadernid	Canolig/ Uchel	Caiff rhan o'r Cynllun ei hepgor neu ei newid Mae angen cynnwys deunydd ychwanegol yn y Cynllun cyn mabwysiadu Caiff y Cynllun cyfan ei dynnu'n ôl	Cysylltu â Llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Awdurdod a sicrhau bod gweithdrefn a chynnwys y cynllun yn

Mater²⁶	Lefel y risg	Effaith bosibl	Dull lliniaru
			gadam wrth iddo fynd yn ei flaen i gael ei gyflwyno i'w archwilio.
Oedi o ran argraffu neu gyfieithu	Isel	Lithriant y Rhaglen.	Sicrhau nad yw'r dull o fformadu a chyflwyno yn dibynnu ar fewnbwn sylweddol o ran graffeg. Sicrhau bod cyfieithwyr ar gael ar gyfer cyfieithu dogfennau o sylwedd.
Her Gyfreithiol	Isel	Dileu'r Cynllun mabwysiedig Llwyth gwaith ychwanegol	Sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion statudol. Cysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch mesurau lliniaru.

Atodiad 4 Grwpiau Ymgynghori

Grwpiau nas Clywir yn aml

Age Cymru Sir Benfro
Cyngor Ar Bopeth
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cymunedau yn Gyntaf (Gorllewin Llanion, Cil-maen,)
Anabledd Cymru
Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl
Tîm Amrywiaeth Heddlu Dyfed Powys
Hafal
Mind Cymru Sir Benfro
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro – gweler y rhestr isod
Fforwm Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Sir Benfro
Cymdeithas y Deillion Sir Benfro
Cymdeithas Gofal Sir Benfro
Cymdeithas Pobl Fyddar Sir Benfro
Cymdeithas Plant Byddar Sir Benfro
Pembrokeshire Talking Newspaper
Grŵp Llywio Arolwg o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro
Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro
Gwasanaeth Ieuencid Sir Benfro
Shelter Cymru
Y Sefydliad Lleiafrifoedd Ethnig
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru
Gweithredu Gorllewin Cymru dros Iechyd Meddwl
Cymdeithas yr Hostelaau Ieuencid

Grwpiau a Sefydliadau a Gynrychiolir gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Grwpiau Celf
Gofalwyr
Elusennau
Grwpiau Plant
Grwpiau Cymunedol
Grwpiau Anabledd
Grwpiau Addysg a Hyfforddiant
Grwpiau Amgylcheddol
Grwpiau Ffydd
Grwpiau Iechyd
Grwpiau Treftadaeth a Diwylliant
Y Digartref
Grwpiau Garddwriaethol
Grwpiau Tai
Grwpiau Crefyddol
Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr
Y Sgowtiaid
Pobl Hŷn
Clybiau Chwaraeon ac Adloniant
Pwyllgorau Neuaddau Pentref
Grwpiau Cludiant Gwirfoddol

Grwpiau Iaith Gymraeg
Cymorth i Fenywod
Sefydliadau'r Merched
Ffermwyr Ifanc
Grwpiau Ieuenctid

Cyrff Ymgynghori Penodol ac Adrannau Llywodraeth y DU

Nwy Prydain, Ecotricity, EDF, Eon, Dŵr Cymru, Good Energy, London Energy, Scottish Power, National Grid Company, Npower, Western Power Distribution, OFCOM, Openreach, Utilita, BT Group plc, EE, Vodaphone, O2, 3 (Three), Virgin Media
CADW
Cyngor Sir Gâr
Cyngor Sir Ceredigion
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd
Yr Adran Masnach a Diwydiant
Yr Adran Trafnidiaeth
Dwr Cymru
Y Swyddfa Gartref
Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Cyfoeth Naturiol Cymru
Network Rail
Cyngor Sir Penfro
Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Benfro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Pobl sy'n rheoli neu sy'n berchen ar gyfarpar electronig
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros swyddogaethau a arferai gael eu cyflawni gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol
Cynghorau Tref a Chymuned (a chynghorau tref a chymuned cyfagos) gweler y rhestr ar wahân isod
UK Ltd,
Holl feysydd polisi Llywodraeth Cymru

Cynghorau Tref a Chymuned *27

Amroth
Angle
Breudeth
Burton
Camros
Aberteifi*
Caerw
Castellmartin
Cilgerran*
Cilymaenllwyd*
Clunderwen*
Cosheston
Crymych
Cwm Gwaun
Dale
Dinas Cross
East Williamston*

²⁷ * Yn gyfangwbl tu fas ond yn agos i'r Parc Cenedlaethol

Eglwyswrw
Eglwys Gymyn*
Abergwaun ac Wdig
Freystrop
Cas-lai
Herbrandston
Hook
Hundleton
Jeffreyston
Cilgeti/Begeli
Llandyfai
Liangwm
Llanrhian
Llanhuadain
Maenclochog
Maenorbyr
Marloes a Llansanffraid-ar-ogwr
Martletwy
Mathri
Pont Fadlen
Aberdaugleddau
Mynachlogddu
Nyfer
Trefdraeth
Nolton a'r Garn
Penfro*
Penalun
Pencaer
Cas-mael
Saundersfoot
Scleddau*
Slebets
Solfach
Tyddewi a Cathedral Close
Llandudoch
St Florence*
St Ishmaels
St Mary Out Liberty
Ystangbwl a Castellmartin
Dinbych-y-pysgod
The Havens
Uzmaston a Boulston
Castell Gwalchmai
Y Ferwig*

Cyrff Ymgynghori Cyffredinol

(i) Cyrff gwirfoddol, y mae rhai o'u gweithgareddau neu bob un ohonynt o fudd i unrhyw ran o ardal yr awdurdod	Gweler y rhestr Grwpiau nas Clywir yn aml
(ii) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau hiliol, ethnig neu genedlaethol gwahanol yn ardal yr awdurdod	Cyngor Ar Bopeth Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymdeithas y Sipsiwn Y Sefydliad Lleafrifoedd Ethnig Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru

(iii) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau crefyddol gwahanol yn ardal yr awdurdod	Yr Eglwys Gristnogol Unionged yng Nghymru Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru Yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru Cyngor Hindŵ y DU Cyngor Mwslimiaid Prydain Cyngor Arweinwyr Iddewig
(iv) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl yn ardal yr awdurdod.	Anabledd Cymru Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl Mind Cymru Cyngor Cymru i'r Deillion Cyngor Cymru i Bobl Fyddar Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
(v) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau unigolion sy'n cynnal busnes yn ardal yr awdurdod.	Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain Y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi PBI Cymdeithas Bwytai a Gwestai Sir Benfro Twristiaeth Sir Benfro Cymdeithas Ynni Gwynt Prydain Ymgyrch dros Gwrw Go Iawn Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Undeb Amaethwyr Cymru Ffederasiwn Busnesau Bach Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr Cymdeithas Amaethyddol Sir Benfro (Pwyllgor y Sioe) Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru Grŵp Cludiant Rheilffyrdd Sefydliad Cyfarwyddwyr De a Gorllewin Cymru Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru Fforwm Wledig Cymru
(vi) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru yn ardal yr awdurdod.	Cymuned Cadw Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed Menter Iaith Sir Benfro Fforwm Wledig Cymru

Ymgynghoreion Eraill²⁸

Gweithredwyr Meysydd Awyr
Cymdeithas Agregau Prydain
Arolwg Daearegol Prydain
Glandŵr Cymru, perchnogion camlesi ac awdurdodau mordwyo
Canolfan Ecoleg a Hydroleg
Siambrau Masnach, canghennau lleol Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a changhennau lleol Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Yr Awdurdod Hedfan Sifil
Yr Awdurdod Glo
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Swyddfa Ystad y Goron

²⁸ Mae rhestr o 'Ymgynghorion Eraill' sydd ar restr bostio yr Awdurdod ar gael ar dudalen wefan Cytundeb Cyflawni yr Awdurdod drwy'r ddolen ganlynol: <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=753>

Comisiwn Dylunio Cymru
Anabledd Cymru
Comisiwn Hawliau Anabledd
Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl
Cwmnïau Trydan, Nwy a Thelegfathrebu a'r National Grid Company
Grwpiau Amgylcheddol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol
Asiantaeth Gwasanaethau Amgylcheddol (Gwastraff)
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Undeb Amaethwyr Cymru
Ffederasiwn Busnesau Bach
Fields in Trust
Gwasanaethau Tân ac Achub
Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
Cyngor y Sipsiwn
Gweithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE)
Ffederasiwn Adeiladu Cartrefi
Grwpiau amwynder, cadwraeth a chymunedol lleol, gan gynnwys Agenda 21
Grwpiau/Cymdeithasau Dinesig
Gweithredwyr cludiant lleol
Undeb Amaethwyr Cymru
Un Llais Cymru
Cymorth Cynllunio Cymru
Swyddog Cyswllt Pensaernïaeth yr Heddlu
Gweithredwyr Porthladdoedd
Post Office Property Holdings
Cyrff Proffesiynol nad ydynt wedi cael eu rhestru'n benodol (e.e. Sefydliad Brenhinol y Syrffwyr Siartredig - Cymru, Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, Sefydliad Tai Siartredig Cymru, Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cymdeithas Cynnyrch Mwynau
Grŵp Cludiant Rheilffordd
Chwaraeon Cymru
Cwmnïau Gweithredu Trenau
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cwmnïau Dŵr
Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (yn cynrychioli'r diwydiant gwastraff)
Comisiynydd yr Iaith Gymraeg

Rhanddeiliaid Allweddol

Grŵp Tai Fforddiadwy Sir Benfro d/o Cyngor Sir Penfro
Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain
CADW
Cyngor Sir Gâr
Cyngor Sir Ceredigion
Dwr Cymru Welsh Water – Gwasanaethau i Ddatblygwyr
Adran yr Economi a Thrafnidiaeth (DE&T) Asiantaeth Cefnffyrdd De a Gorllewin Cymru
Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro

Partneriaeth Cyrchfan Sir Benfro
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Bwrdd Gwasanaethau Lleol d/o Cyngor Sir Penfro
Un Llais Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Asiantiaid Cynllunio Sir Benfro d/o Cyngor Sir Penfro
Cymdeithas Cyngorau Lleol Sir Benfro
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Panel Busnes Sir Benfro
Fforwm Arfordir Sir Benfro
Rhwydwaith Ynni Cymunedol Sir Benfro
Cyngor Sir Penfro
Grŵp Llywio Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro
PLANED
Grŵp Cynllunio Mwynau De Orllewin Cymru
Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru
Grŵp Cynllunio Gwastraff De Orllewin Cymru
Rhwydwaith Amgylcheddol Sir Benfro (TENP)
Llywodraeth Cymru

Atodiad 5 'Rhestr Termau'

Adroddiad Monitro Blynnyddol	Bydd hwn yn asesu i ba raddau y mae polisiau yn y cynllun datblygu lleol yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus (Rheoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.
Llinell Sylfaen	Disgrifiad o gyflwr presennol ardal i'w ddefnyddio i fesur newid.
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth	Cynllun sy'n pennu amcanion a champau gweithredu ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth, gan gynnwys targedau mesuradwy, sydd â'r nod o warchod a gwella natur ar draws cymunedau gan ddwyn ynghyd bob buddiant, drwy gynnwys sectorau fel amaethyddiaeth a busnes yn ogystal â'r cymunedau eu hunain. Caiff camau eu datblygu a'u gweithredu mewn partneriaeth ac wrth wneud hynny maent yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol yn ogystal ag anghenion bioamrywiaeth.
Darpar Safle	Darpar Safleoedd yw'r rhai sy'n cael eu henwebu gan unrhyw un i'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu hystyried yn ddyraniadau mewn Cynllun Datblygu Lleol sydd wrthi'n cael ei greu.
Cofrestr o Ddarpar Safleoedd	Cofrestr o ddarpar safleoedd sy'n cael ei llunio yn dilyn galwad gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol am ddarpar safleoedd.
Panel Dinasyddion	Nifer gynrychiadol o breswylwyr a ddewisir ar hap ac yr ymgynghorir â hwy'n rheolaidd ynghylch amryw o faterion a gwasanaethau lleol.
Cymuned	Pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, neu sy'n rhannu buddiannau eraill ac sydd felly'n gymunedau buddiant.
Ardoll Seilwaith Cymunedol	Ffi gynllunio yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 yn fodd i awdurdodau cynllunio lleol helpu i ddarparu seilwaith ar gyfer hwyluso datblygiad eu hardal. Daeth i rym ar 6 Ebrill 2010 drwy gyfrwng Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010.
Cynllun Cynnwys Cymunedau	Mae'n nodi polisiau a chynllun prosiect yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer cynnwys cymunedau lleol, gan gynnwys busnesau, yn y broses o baratoi cynlluniau datblygu lleol. Caiff y Cynllun Cynnwys Cymunedau ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni er mwyn cytuno arno.
Strategaeth Gymunedol	Mae'n ofynnol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Rhan 2: Adrannau 37-46), ac mae'n anelu at wella lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yr ardaloedd. Gweler "Cynllun Integredig Sengl".
Datblygu consensws	Proses o gynnal deialog gynnar â grwpiau buddiant a dargedir er mwyn deall safbwyntiau perthnasol a chytuno ar ddull gweithredu.
Ymgynghoriad	Proses ffurfiol pan wahoddir sylwadau am bwnc penodol neu gyfres o bynciau, neu am ddogfen ddrafft.
Corff Ymgynghori	Awdurdod sydd â chyfrifoldebau amgylcheddol, sy'n pryderu am effeithiau gweithredu cynlluniau a rhaglenni, ac y mae'n rhaid ymgynghori ag ef o dan y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol; hynny yw, Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw.
Ymarfer Ymgynghori	Un prosiect ymgynghori sy'n canolbwyntio ar amcan diffiniedig ac sydd fel arfer yn rhan o raglen ymgynghori gyffredinol.
Dangosydd Cyd-destunol	Dangosydd a ddefnyddir i fonitro newidiadau yn y cyd-destun y caiff y cynllun ei weithredu ynddo.
Cytundeb Cyflawni	Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ynghyd â'i Gynllun Cynnwys Cymunedau, ac a gyflwynir i Lywodraeth Cymru er mwyn cytuno arni.
Dogfennau Adnau	Gweler "Dogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol".
Polisiau rheoli datblygiad	Casgliad o bolisiau sy'n seiliedig ar feini prawf a fydd yn sicrhau bod yr holl ddatblygiad yn yr ardal yn cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn y Strategaeth.

Dulliau o gynnal deialog	Gwahanol dechnegau rhyngweithio sy'n creu deialog barhaus rhwng grwpiau yr effeithir arnynt, ac ymysg y grwpiau hynny.	
Ymgysylltu	Proses sy'n annog ystyriaethau o sylwedd mewn cymuned. Ymgais rhagweithiol i gynnwys unrhyw grŵp penodol o bobl/rhan o'r gymuned.	
Adroddiad Amgylcheddol	Dogfen sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac sy'n nodi, disgrifio ac yn arfarnu'r effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd yn sgil gweithredu'r cynllun. Gweler 'Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd'.	
Cronfa Dystiolaeth	Dehongliad o'r wybodaeth/data Llinell Sylfaen neu wybodaeth/data o fath arall er mwyn creu sail i bolisi'r cynllun.	
Newidiadau Penodol	Nifer fach iawn o newidiadau arfathedig i'r Cynllun Datblygu Lleol Adnau cyn ei gyflwyno, sy'n adlewyrchu darnau allweddol o'r dystiolaeth, ond nad ydynt yn ymwneud â chraidd y cynllun.	
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Y broses o sgrinio ac asesu'n briodol y dewisiadau sy'n ofynnol o dan Ran 6, Pennod 8, o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) (y Rheoliadau Cynefinoedd) – sef proses ailadroddol gydnabyddedig sy'n helpu i ganfod yr effaith sylweddol debygol ar gynllun neu raglen ac sydd (pan fo'n briodol) yn asesu effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd safle Ewropeaidd. Mae'n ofynnol i'r asesiad gael ei gynnal gan awdurdod cymwys yng nghyswllt cynlluniau neu brosiectau sy'n debygol o gael effaith sylweddol (ar eu pen eu hunain ac o'u cyfuno â chynlluniau a phrosiectau eraill) ar "safle Ewropeaidd" (gweler paragraff 5.1.2 o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5), neu fel mater o bolisi safle Ramsar neu "safle Ewropeaidd" arfaethedig, o dan ddarpariaethau Erthygl 6(3) o Gyfarwyddeb 92/43/ECC yr Undeb Ewropeaidd (y Gyfarwyddeb Gynefinoedd), rheoliadau 61 a 102 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd), a rheoliad 25 o Reoliadau Cadwraeth Forol Alltraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 2007.	
Dangosydd	Mesur o newidion dros amser, a ddefnyddir yn aml i fesur y graddau y cyflawnwyd amcanion.	
Adroddiad Cychwynnol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd	Term a ddefnyddir yn 'Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru' i gyfeirio at Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, a lunnir yng nghyfnod y Dewis Strategaeth. Mae hwn yn asesu dewisiadau'r Cynllun Datblygu Lleol yn ôl fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Caiff yr adroddiad ei ehangu wedyn yng nghyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Adnau, a rhoddir y wedd derfynol arno ochr yn ochr â'r Datganiad Mabwysiadu.	
Cynnwys	Term generig sy'n cynnwys technegau ymgynghori a chyfranogi.	
LANDMAP	LANDMAP yw'r fethodoleg a fabwysiadwyd yn ffurfiol ar gyfer asesu'r dirwedd yng Nghymru; felly dylai'r holl waith ar dirweddau ac asesiadau o'r effeithiau y bydd cynnig yn eu cael ar y dirwedd yng Nghymru gynnwys LANDMAP.	
Dogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol (neu Ddogfennau Adnau)	Mae'r rhain yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol Adnau, Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, yr adroddiad ymgynghori cychwynnol, y gofrestr o ddarpar safleoedd, Adroddiad yr Adolygiad (os yw'n briodol), ac unrhyw ddogfennau ategol perthnasol.	
Llyfrgelloedd	Aberteifi Crymch Abergwaun Wdig Hakin Hwlfordd Aberdaugleddau Arberth	Trefdraeth Neyland Penfro Doc Penfro Sanclêr Tyddewi Saundersfoot Dinbych-y-Pysgod
Cynllun Datblygu Lleol	Y cynllun datblygu statudol sy'n ofynnol ar gyfer pob ardal awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.	

	- Cynllun ynghylch defnyddio tir ac sy'n destun archwiliad annibynnol, a hwn fydd y cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal awdurdod cynllunio lleol at ddibenion y Ddeddf. Dylai gynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisïau i'r ardal gyfan ar gyfer mathau o ddatblygiadau, dyraniadau tir, a phan fo angen dylai gynnwys polisïau a chynigion ar gyfer meysydd allweddol i'w newid a'u diogelu. Rhaid i bolisïau a dyraniadau gael eu dangos yn ddaearyddol ar y Map Cynigion sy'n rhan o'r cynllun.
Awdurdod Cynllunio Lleol	Awdurdod cynllunio sy'n gyfrifol am lunio Cynllun Datblygu Lleol, hynny yw, Cyngor Sir neu Fwrdeistref, neu Awdurdod Parc Cenedlaethol.
Partneriaeth strategaeth leol	Partneriaethau o randdeiliaid sy'n dwyn ynghyd ddarparwyr gwasanaethau, a'r sectorau preifat, cymunedol a gwirfoddol i ganfod a diwallu anghenion lleol yn fwy effeithiol ac mewn modd cydgyssylltiedig; maent yn ymwneud fel arfer â'r broses o lunio'r Cynllun Integredig Sengl.
Cynllun Llesiant Lleol	O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu sefydlu ar gyfer ardal pob awdurdod lleol; bwriedir y bydd pob un yn paratoi Cynllun Llesiant i gymryd lle'r Cynllun Integredig Sengl erbyn mis Ebrill 2018 (adran 39).
Cynllun Morol	Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a baratowyd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.
Newidiadau Materion yn Codi	Newidiadau ar ôl cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol, pan fo'r Arolygydd penodedig yn dod i'r casgliad fod y newid yn angenrheidiol at ddibenion cadernid ar ôl iddo ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'r archwiliad.
Dulliau Lliniaru	Mesurau i osgoi, lleihau neu wrthbwyso effeithiau niweidiol sylweddol.
Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol	Mewn ardaloedd parciau cenedlaethol, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw'r ddogfen bolisi drosfwaol strategol, sy'n cyd-drefnu ac yn integreiddio cynlluniau, strategaethau a champau gweithredu eraill pan fo'r rhain yn effeithio ar ddibenion a dyletswyddau'r Parc; dylai gyfrannu at y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n bwysig bod y Cynllun(iau) Integredig Sengl yn cyd-blethu â Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.
Amcan	Datganiad am yr hyn a fwriedir, sy'n pennu'r cyfeiriad a ddymunir o ran newid tueddiadau.
Dangosydd Canlyniadau	Dangosydd sy'n mesur canlyniad uniongyrchol y cynllun. Mae'r dangosyddion hyn yn mesur cynnydd o ran cyflawni amcanion, targedau a pholisïau'r cynllun.
Cyfranogi	Proses pan fo rhanddeiliaid a'r gymuned yn gallu rhyngweithio â'r rhai sy'n llunio'r cynllun.
Partneriaid	Adrannau awdurdodau lleol/parciau cenedlaethol a chyrrff statudol eraill y bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn eu helpu o ran cyflawni rhai o amcanion eu strategaethau hwy. Gall fod disgwyl i bartneriaid gyfrannu at lunio rhannau perthnasol o'r Cynllun Datblygu Lleol.
Dogfennau cynigion cyn-adneuo	Mae'r rhain yn cynnwys y weledigaeth, opsiynau strategol, y Dewis Strategaeth, polisïau allweddol, Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, y gofrestr o Ddarpar Safleoedd, ac Adroddiad yr Adolygiad (os yw'n briodol).
Cyfnod cyn-adneuo	Y cyfnodau cyfranogi ac ymgynghori cyn adneuo; mae'r Llawlyfr yn cyfeirio at gyfnod yr Opsiynau Strategol a'r Dewis Strategaeth sy'n ymwneud â'r weithdrefn lawn ar gyfer cynlluniau; mae llai o ofynion yn gysylltiedig â'r weithdrefn fer ar gyfer diwygio cynlluniau.
Datganiadau i'r wasg	Cânt eu hanfon at holl gyfryngau Cymru, gan gynnwys papurau newydd, a gorsafoedd newyddion radio a theledu. Gall cyfryngau ddewis peidio ag argraffu neu ddarledu'r eitem newyddion.
Hysbysiad Cyhoeddus	Hysbysiadau swyddogol sy'n cydymffurfio â'r holl ofynion yn y

	Rheoliadau ynghylch Cynlluniau Datblygu Lleol ac Arfarniadau Amgylcheddol Strategol, ac ati, o ran hysbysu neu gyhoedduswydd. Nid oes dim fformat statudol penodol ar gyfer hysbysiadau. Dylai hysbysiadau gael eu llunio gyda golwg ar sicrhau hygyrchedd drwy gyfrwng eglurhad mwy syml a defnyddio ieithwedd glir. Bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gosod hysbysiadau cyhoeddus yn adran hysbysiadau cyhoeddus y <i>Pembrokeshire Herald</i> .
Adroddiad yr Adolygiad	Yr adroddiad statudol gofynnol o dan Adran 69 o Ddeddf 2004 a/neu Reoliad 41; i ddod i gasgliad ynghylch y weithdrefn ar gyfer diwygio'r Cynllun Datblygu Lleol sydd i'w dilyn ar sail asesiad clir o'r hyn sydd wedi'i ystyried a'r hyn y mae angen ei newid, a pham, ar sail tystiolaeth.
Pennu cwmpas Arfarniad o Gynaliadwyedd	Y broses o benderfynu ar gwmpas a lefel manylder Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys yr effeithiau a'r dewisiadau cynaliadwyedd y mae angen eu hystyried, y dulliau asesu i'w defnyddio, a strwythur a chynnwys Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.
Cytundeb Lefel Gwasanaeth	Cytundeb ag asiantaeth statudol sy'n pennu'r safonau y bydd yn anelu at eu cyrraedd, a'r costau sy'n deillio o hynny. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn dod yn rhan o gytundeb o'r fath â'r Awdurdod Cynllunio Lleol yng nghyswllt archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol, gan nodi cost ac amserlenni tebygol yr archwiliad a chan ddarparu canllawiau clir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar natur ei chyfrifoldebau ei hun.
Y weithdrefn ddiwygio fer	Gall fod yn briodol ar gyfer amgylchiadau pan nad yw'r materion o dan sylw yn ddigon pwysig i gyfiawnhau cynnal y weithdrefn lawn ar gyfer diwygio cynlluniau.
Effaith sylweddol	Effeithiau sy'n sylweddol yng nghyd-destun y cynllun (mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn nodi meini prawf ar gyfer penderfynu ar arwyddocâd tebygol effeithiau ar yr amgylchedd).
Dangosydd Effeithiau Sylweddol	Dangosydd sy'n mesur effeithiau sylweddol y cynllun.
Cynllun Integredig Sengl	Mae'n cyflawni dyletswyddau statudol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ("Cydamcanu – Cydymdrechu", Llywodraeth Cymru 2012), gan gynnwys Strategaethau Cymunedol; caiff ei lunio gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol. Gweler "Cynllun Llesiant Lleol", a fydd yn cymryd lle'r Cynlluniau Integredig Sengl.
Dyraniadau safle-benodol	Dyraniadau safleoedd (cynigion) ar gyfer defnydd penodol neu ddefnydd cymysg neu ddatblygiad a geir mewn Cynllun Datblygu Lleol. Bydd polisïau yn nodi unrhyw ofynion penodol yng nghyswllt cynigion unigol. Bydd dyraniadau'n cael eu dangos ar fap cynigion y Cynllun Datblygu Lleol.
Cadernid	Er mwyn cael ei fabwysiadu, rhaid i Arolygydd yr archwiliad benderfynu bod y Cynllun Datblygu Lleol yn 'gadarn' (Adran 64 o Ddeddf 2004). Caiff profion a gwiriadau cadernid eu nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru (pennod 2) a'r Llawlyfr (pennod 8).
Rhanddeiliaid	Buddiannau y mae'r Cynllun Datblygu Lleol (a/neu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol) yn effeithio arnynt yn uniongyrchol – cânt eu cynnwys fel arfer drwy gyfrwng cyrff cynrychiadol.
Datganiad o Dir Cyffredin	Diben Datganiad o Dir Cyffredin yw nodi'r prif feysydd y mae dau barti neu ragor yn cytuno arnynt yng nghyswllt mater penodol.
Asesiad Amgylcheddol Strategol	Term cyffredinol a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio asesiad amgylcheddol fel y'i cymhwysir at gynlluniau a rhaglenni. Mae proses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn deillio o ddeddfwriaeth Ewropeaidd a chaiff ei diffinio ar lefel Ewropeaidd – Cyfarwydddeb 2001/42/EC. Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol) yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad amgylcheddol ffurfiol o gynlluniau a rhaglenni penodol, gan gynnwys y rhai ym

	meysydd cynllunio a defnyddio tir.
Canllawiau Cynllunio Atodol	Gwybodaeth atodol yng nghyswllt y polisiâu mewn Cynllun Datblygu Lleol. Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhan o'r cynllun datblygu ac nid ydynt yn destun archwiliad annibynnol, ond rhaid iddynt fod yn gyson ag ef ac yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol.
Arfarniad o Gynaliadwyedd	Dull o arfarnu polisiâu er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygiad cynaliadwy (sef ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol o dan Adran 62(6) o Ddeddf 2004 gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r math hwn o Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ymgorffori'n llawn ofynion y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol. Yn y Llawlyfr hwn, mae'r term yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, oni bai y'i nodir yn glir fel arall.
Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd	Mae hwn yn cynnwys yr amcanion a nodwyd yng nghyswllt yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer asesu opsiynau'r Cynllun Datblygu Lleol.
Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd	Dogfen y mae'n ofynnol ei llunio fel rhan o broses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i ddisgrifio ac arfarnu'r effeithiau sylweddol tebygol ar gynaliadwyedd a fydd yn deillio o weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol, ac sydd hefyd yn bodloni'r gofyniad am yr Adroddiad Amgylcheddol o dan y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol. Mae Adran 62(6) o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol baratoi adroddiad ar ganfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol. - Caiff Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ei gynhyrchu'n gyntaf yng nghyfnod y Dewis Strategaeth (Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Interim); ymhelaethir arno yng nghyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Adnau a rhoddir y wedd derfynol arno ochr yn ochr â'r Datganiad Mabwysiadu.
Deddf 2004	Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.
Cynllun Gofodol Cymru	Cynllun a luniwyd ac a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 60 o Ddeddf 2004, sy'n nodi fframwaith strategol i lywio datblygiadau ac ymyriadau polisi yn y dyfodol, p'un a yw'r rhain yn ymwneud â rheolaeth ffurfiol ar gynllunio ynghylch y defnydd o dir neu beidio. O dan Adran 62(5)(b) o Ddeddf 2004, rhaid i awdurdod cynllunio lleol roi sylw i Gynllun Gofodol Cymru wrth lunio Cynllun Datblygu Lleol.
Gweithdy	Pan fo grŵp yn cael cyfle i gymryd rhan mewn dadleuon grŵp a gweithgareddau ymarferol gan lunio 'allbwn' ysgrifenedig neu ar ffurf darlun.